CYMRU'N COFIO
WALES REMEMBERS
1914 - 1918

# RHAGLEN 2018



# Rhagair



## Prif Weinidog Carwyn Jones

Roedd 2017 yn flwyddyn arbennig o arwyddocaol i'n gwlad adeg canmlwyddiant y Rhyfel Mawr, wrth inni gofio Trydedd Frwydr Ypres (Passchendaele) pan laddwyd cymaint o Gymry, gan gynnwys y prifardd Hedd Wyn.

Ar 31 Gorffennaf, es i Wasanaeth Coffa Cenedlaethol Cymru yn Langemark, Fflandrys, i anrhydeddu'r 3,000 o Gymry a gwympodd ym mrwydr enbyd Passchendaele, brwydr y bu'r 38ain Adran (Gymreig) mor amlwg ynddi. Rydym yn cofio am y rhai fu farw oherwydd eu cyfraniad i'n diwylliant ni – fel barddoniaeth a chwaraeon – ond mae'n bwysig cofio am yr holl ddynion o Gymru a drengodd ar faes y gad.

Ym mis Medi, roedd hi'n fraint ac anrhydedd agor yr Ysgwrn yn swyddogol gyda Gerald Williams, nai Hedd Wyn. Mae'r ffermdy wedi'i ailwampio'n gelfydd ac rwy'n falch ein bod ni fel Llywodraeth wedi gallu cefnogi'r gwaith hwn. Da chi, ewch am dro yno.

Rydym yn parhau i gydweithio'n agos â Llywodraeth Fflandrys, a chynhaliwyd digwyddiadau di-ri yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben gyda digwyddiad coffa yn y Senedd fis Tachwedd.

Wrth inni edrych ymlaen at 2018, byddwn ni'n canolbwyntio ar ddiwedd y Rhyfel a rôl David Lloyd George fel Prif Weinidog, er enghraifft yn creu'r Awyrlu Brenhinol.

Rwy'n ddiolchgar i'r cymunedau a'r sefydliadau am eu holl waith caled yn cefnogi Rhaglen *Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914–1918. Braf gweld y prosiectau a'r digwyddiadau rhagorol hyn yn dal i nodi'r digwyddiad pwysig hwn yn hanes ein gwlad.



## Syr Deian Hopkin, Cynghorydd Arbenigol y Prif Weinidog ar y Rhyfel Byd Cyntaf

Yn 2017, cafwyd sawl achlysur pwysig ac emosiynol, fel y seremonïau yn y Parc Coffa estynedig i'r Cymry yn Langemark a Tyne Cot, i gofio am gyflafan Passchendaele. Er na welwyd brwydro ar raddfa mor fawr ym 1918, bu'n flwyddyn o newidiadau sylweddol a byddwn yn parhau i gofio a chnoi cil ar aberth a dioddefaint di-ball y cyfnod.

Hon hefyd oedd blwyddyn pasio Deddf Cynrychiolaeth y Bobl, a estynnodd yr hawl i bleidleisio i ddynion dros 21 oed yn ogystal â menywod am y tro cyntaf erioed – cyn belled â'u bod nhw dros 30 oed – gan arwain nid yn unig at dreblu nifer yr etholwyr ond gweddnewid y maes gwleidyddol hefyd. Roedd digwyddiadau pwysig â goblygiadau pellgyrhaeddol ar droed ledled y byd hefyd; yn y Dwyrain Canol, lle daeth y brodor o Dremadog Lawrence o Arabia i'r amlwg, ac yn Rwsia pan ymunodd milwyr Prydain ag eraill yn yr ymdrechion i geisio disodli'r llywodraeth Folsiefigaidd.

Bydd canmlwyddiant y Cadoediad ym mis Tachwedd yn gyfle i fyfyrio ar y rhyfel, ac ystyried pa wersi a ddysgwyd, yn enwedig o ystyried pam na wireddwyd gobeithion "the war to end all wars". Bydd y gwaddol digidol yn hollbwysig gan fod cymaint o waith wedi'i wneud ar hyd a lled Cymru i archwilio hanesion personol y rhai oedd yn ei chanol hi yn ogystal â phrofiadau teuluoedd a chymunedau cyfan, ac er mwyn parhau i gyfoethogi ein dealltwriaeth ni. Y flaenoriaeth fydd sicrhau bod y deunydd hwn ar gael i genedlaethau'r dyfodol.

I gloi, hoffwn ddiolch i'r holl unigolion, grwpiau a sefydliadau hynny dros Gymru benbaladr, gan gynnwys aelodau o Fwrdd Cymru'n Cofio, am eu cyfraniad hollbwysig i lwyddiant y rhaglen.

OGL © Hawlfraint y Goron 2018 WG33171

# Cynnwys






## Yr Awyrlu Brenhinol 2

Mae Stuart Hadaway yn ystyried datblygiad grym yn yr awyr yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, y ffactorau a arweiniodd at greu'r Llu Awyr a chyfraniad Cymru at y rhyfel yn yr awyr.

## Rhyfel y Môr 1914-1918 5

Huw Williams sydd yn trafod cyfraniad Cymru i'r Rhyfel ar y Môr rhwng 1914 a 1918.

## Lloyd George: 'Pensaer Buddugoliaeth' 8

Cafodd Lloyd George ei benodi'n Brif Weinidog llywodraeth glymblaid ym mis Rhagfyr 1916, gyda briff syml: mynd i'r afael â'r rhyfel gyda mwy o arddeliad, fel y trafoda Dr Toby Thacker.

## Creu etifeddiaeth barhaol 10

Owen Llywelyn, Rheolwr Estyn Allan a Chyfranogiad, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, sy'n trafod cyfraniad y Llyfrgell i weithgareddau Cymru'n Cofio yn 2018.

## Cofio yn Amgueddfa Cymru 12

Eleni, bydd Amgueddfa Cymru yn myfyrio ar ddiwedd y Rhyfel Mawr, sut y bu pobl yn dathlu'r achlysur ar y pryd, ei goffáu wedyn a'i gofio heddiw. Hanes menywod fydd ail bwyslais yr Amgueddfa; byddant yn ystyried byd gwaith merched ar y pryd, sut y cawsant eu trin a'u hymgyrchoedd dros yr hawl i bleidleisio, fel y trafoda Pip Diment.

## Rhyfel Byd Cyntaf: Cynllun Grantiau Ysgolion Uwchradd 14

Meinir Davies (Ysgol David Hughes) a Nathan Keeble (Ysgol Aberdâr) sydd yn trafod prosiectau ymgymerwyd gan eu hysgolion gan ddefnyddio grantiau o £1,000 a ddarparwyd gan Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru.

## Fflandrys a Chymru: Symposiwm Rhyfel Byd Cyntaf 16

Ym mis Tachwedd 2017, ganrif ar ôl i'r brwydro mawr yn Passchendaele ddod i stop yng nghanol llaid a llaca Fflandrys, daeth academyddion, ieithyddion, gwleidyddion, artistiaid ac aelodau'r cyhoedd ynghyd yn y Pierhead, Bae Caerdydd, i archwilio'r Rhyfel Mawr o safbwynt Cymru a Fflandrys, fel y trafoda Dr Toby Thacker.

## Aduniad y tri brawd yn Rwmania yn y Rhyfel Byd Cyntaf 18

Roedd Duncan a Gerard Fitzwilliams yn Ysbyty Mircea yn Roman, Rwmania, ym mis Gorffennaf 1917, pan ymddangosodd eu brawd ieuengaf, John. Roedden nhw'n meddwl ei fod gartref yn gwella o'r anafiadau a gafodd yn Ffrainc, lle'r oedd yn arwain magnelfa. Ond yn hytrach na'i anfon yn ôl i faes y gad yn unol â'r disgwyl, fe'i hanfonwyd ar gyrch arbennig i Rwsia a Rwmania gan y Swyddfa Ryfel. Alan N. Owen sydd yn olrhain eu hanes.

## Cyngor Archifau a Chofnodion Cymru 20

Vicky Jones sydd yn trafod y ffordd y mae archifau yng Nghymru wedi bod yn coffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf.

## Gwarchod ein cofebion rhyfel 22

Mae cofebion rhyfel o Fôn i Fynwy yn hollbwysig wrth gofio am y Rhyfel Byd Cyntaf. Maen nhw'n fynegiant o golled, galar a balchder cymunedau lleol ac yn ganolbwynt y cofio, ac mae eu lleoliad yn aml yn adlewyrchu'r rôl gyhoeddus honno, fel yr eglura Julie Osmond.

## Ffynonellau Cyllid 24

Prosiectau Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf.

## Digwyddiadau 26

Rhestr digwyddiadau ar gyfer 2018.


**Clawr blaen: Rhes o awyrennau SE5a Sgwadron Rhif 85 yn St Omer, Mehefin 1918. RAF(AHB) / © Gweinyddiaeth Amddiffyn y DU**
**Chwith: Awyrlong Submarine Scout yn yr awyr. RAF (AHB) / © Gweinyddiaeth Amddiffyn y DU**
**Dde: Capten Richard Lloyd George, Mrs Owen Thomas, Y Prif Weinidog David Lloyd George, ei wraig Margaret a'r Brigadydd-Gadfridog Owen Thomas yn Llandudno wedi anerchiad y Prif Weinidog ar y rhyfel mawr © IWM (Q 54471)**



Peilotiaid a gwylwyr sy'n aelodau o Sgwadron Rhif 8 yn Ffrainc yn ymlacio ym mar y sgwadron yn fuan wedi'r Cadoediad ddiwedd 1918. RAF (AHB) / © Gweinyddiaeth Amddiffyn y Deyrnas Unedig Hawlfraint y Goron

# Mae Stuart Hadaway yn ystyried datblygiad grym yn yr awyr yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, y ffactorau a arweiniodd at greu'r Awyrlu Brenhinol a chyfraniad Cymru at y rhyfel yn yr awyr.

**Sefydlwyd yr Awyrlu Brenhinol ar 1 Ebrill 1918. Hwn oedd y llu awyr annibynnol cyntaf yn y byd, a'r trydydd llu arfog ym Mhrydain.**

Sefydlwyd y Corfflu Hedfan Brenhinol (RFC) ym 1912, ac roedd ganddo Adain Filwrol ac Adain y Llynges. Ym 1914, gadawodd Adain y Llynges i sefydlu Gwasanaeth Awyr y Llynges Frenhinol (RNAS), ac ar drothwy'r Rhyfel Byd Cyntaf, roedd gan y ddau sefydliad gyfanswm o 272 o awyrennau a 1,844 o staff. Bedair blynedd yn ddiweddarach, ar ddiwedd y rhyfel, roedd y niferoedd wedi cynyddu i dros 22,000 o awyrennau a thros 300,000 o staff, gan gynnwys Awyrlu Brenhinol y Menywod.

Roedd gallu'r gwasanaethau hedfan wedi datblygu hefyd. Roedd prif awyren 1914 – y Royal Aircraft Factory BE2 – yn gallu hedfan 70 m.y.a. ar uchder o 10,000 o droedfeddi wrth gludo 100 pwys o fomiau, gyda dim ond reifflau neu lawddrylliau i'w hamddiffyn ei hun. Erbyn 1918, roedd amrywiaeth eang o awyrennau'n cael eu defnyddio, gyda llawer ohonynt yn gwneud gwaith arbenigol iawn.

Roedd awyrennau ymladd fel y Sopwith Camel neu'r SE5a yn gallu hedfan dros 120 m.y.a. ar uchder o dros 20,000 o droedfeddi, ac roedd ganddynt ddau wn peiriant a llwyth bomiau hyd at 100 pwys os oedd angen. Gallai awyrennau bomio pwrpasol fel yr Handley Page 0/400 gludo bron i 2,000 pwys o fomiau i'w defnyddio yn erbyn ffatrïoedd yn yr Almaen. Roedd awyren y Bristol Fighter yn hynod ddatblygedig ac effeithiol, gan barhau i gael ei defnyddio tan 1932.




Awyren SE5a y Royal Aircraft Factory o Gasgliad Shuttleworth. © Stuart Hadaway

# ROYAL AIR FORCE

Roedd awyrennau mwy datblygedig fyth ar fin cael eu defnyddio hefyd: flwyddyn ar ôl diwedd y rhyfel, defnyddiwyd yr awyren fomio Vickers Vimy ar gyfer teithiau hedfan arloesol ar draws yr Iwerydd (ychydig yn llai na deng mlynedd ar ôl i Louis Blériot synnu'r byd trwy groesi'r Sianel) ac i Awstralia a De Affrica.


Roedd modd defnyddio'r awyrennau hyn i gyflawni amrywiaeth anhygoel o dasgau; mae swyddogaethau presennol yr Awyrlu Brenhinol yn debyg iawn i swyddogaethau'r gwasanaeth ym 1918.

*Mae'r Awyrlu Brenhinol wedi gallu anfon awyrennau ymladd a bomio i gefnogi'r fyddin ledled y byd, i wneud gwaith rhagarchwilio ac ymosod ar y ddaear, a hyd yn oed i ollwng cyflenwadau i luoedd ar y ddaear a chludo'r clwyfedig.*

Roedd y Llynges Frenhinol wedi dechrau gwneud gwaith patrolio ac ymosod morwrol, gydag awyrennau'n cael eu lansio o longau a phlatfformau arnofiol. Hefyd, cynhaliwyd arbrofion aflwyddiannus gyda cherbydau wedi'u llywio o bell.

Ar ddechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf, anfonodd yr RFC bedwar sgwadron i Ffrainc. Anfonwyd sgwadronau eraill wedyn i'r Aifft, Salonika, Mesopotamia, yr Eidal, y Dardanelles ac Affrica.

Gydol y rhyfel, roedd yn anodd i'r RFC gynnal ei gryfder rheng flaen neu ehangu'n gyson. Roedd brwydr dechnolegol ar waith rhwng Prydain a'r Almaen, wrth i un ochr achub y blaen ar y llall o ran dylunio awyrennau neu ddatblygu tactegau. Roedd nifer y rhai a fu farw yn ddychrynllyd ar adegau, yn bennaf oherwydd bod yr awyrennau ysgafn wedi'u gwneud o bren a ffabrig yn malu'n ddarnau neu'n mynd ar dân yn hawdd wrth hedfan, a bod parasiwtiau'n rhy drwm a thrwsgl i'w defnyddio.



Awyren fomio drwm Handley Page V/1500, a ddechreuodd wasanaethu ychydig wedi diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf. RAF (AHB) / © Gweinyddiaeth Amddiffyn y Deyrnas Unedig Hawlfraint y Goron

Roedd yr RFC yn cefnogi'r fyddin dramor, a'r RNAS yn cefnogi'r Llynges Frenhinol ar foroedd Prydain a thu hwnt. Yr RNAS oedd yn gyfrifol am amddiffyn y DU yn y lle cyntaf, ond trosglwyddwyd y cyfrifoldeb i'r RFC yn gynnar ym 1916. Fodd bynnag, roedd cyflawni'r swyddogaeth hon yn gryn her i'r naill lu a'r llall, ac roedd yn ymddangos bod awyrlongau Zeppelin yr Almaen yn bomio'r wlad yn ddirwystr. Fe'u trechwyd o'r diwedd tua diwedd 1916, ond fe'u disodlwyd gan awyrennau'r Almaen tua dechrau 1917, ac unwaith eto roedd yn ymddangos na allai'r gwasanaethau hedfan eu rhwystro.

Roedd diffyg trefn ar yr amddiffynfeydd, ac roedd yr RFC a'r RNAS yn cystadlu yn erbyn ei gilydd am adnoddau, dyluniadau awyrennau, gwaith cynhyrchu a materion eraill. Roedd y ddau wasanaeth yn tyfu'n gyflym mewn ymateb i ymrwymiadau byd-eang cynyddol, ond roedd amser ac adnoddau yn cael eu gwastraffu oherwydd diffyg cydweithio. Yn gynyddol, o ran materion amddiffyn cartref neu fomio strategol yn yr Almaen, roedd yr RFC a'r RNAS yn mentro i feysydd y tu hwnt i gylch gwaith uniongyrchol eu gwasanaethau rhiant.



Awyrlong Submarine Scout yn yr awyr. RAF (AHB) / © Gweinyddiaeth Amddiffyn y Deyrnas Unedig Hawlfraint y Goron

Ym mis Gorffennaf 1917, sefydlodd y Prif Weinidog David Lloyd George y Pwyllgor Trefniadaeth Awyr ac Amddiffyn Cartref yn Erbyn Cyrchoedd Awyr er mwyn archwilio amddiffynfeydd awyr y DU, a sut y dylai'r gwasanaethau hedfan gydweithio yn gyffredinol.



**Ysgarmes Awyr: Awyren SE5a ac Albatros DV o Gasgliad Shuttleworth mewn brwydr ffug. © Stuart Hadaway**

Cadeirydd y Pwyllgor oedd y Cadfridog o Dde Affrica, Jan Smuts, ac roedd adroddiad cyntaf y Pwyllgor ar 11 Gorffennaf 1917 yn argymell sefydlu awdurdod unedig ar gyfer yr unedau oedd yn amddiffyn y DU. Roedd yr ail adroddiad ar 17 Awst 1917 yn argymell uno'r RFC a'r RNAS yn un gwasanaeth annibynnol a chreu Gweinidogaeth Awyr i'w gynorthwyo. Cymeradwywyd y cynnig gan y Senedd a'r Brenin ym mis Tachwedd 1917, a sefydlwyd yr Awyrlu Brenhinol ar 1 Ebrill 1918.

Yr orsaf awyr gyntaf yng Nghymru oedd RNAS Milton, a ailenwyd yn Carew Charlton maes o law, a sefydlwyd yn ystod haf 1915. Yn fuan wedyn, sefydlwyd RNAS Llangefni, a ailenwyd yn Mona maes o law, ar Ynys Môn.

Roedd y ddau safle yn orsafoedd awyrlongau a ddefnyddiwyd gan yr RNAS i batrolio'r Llwybrau Gorllewinol a Môr Iwerddon gan chwilio am longau tanfor o'r Almaen a oedd yn ceisio atal llongau oedd yn teithio yn ôl ac ymlaen o Lerpwl a Bryste.

Roedd y gwaith hwn yn hanfodol er mwyn cadw llwybrau'r môr yn agored i Brydain. Pe bai gormod o longau wedi'u colli, byddai'r gwaith yn ffatrïoedd Prydain wedi dod i ben oherwydd diffyg adnoddau crai, gan lesteirio ymdrechion y rhyfel ac arwain at newyn ymysg y boblogaeth.

Erbyn 1918 roedd awyrennau â digon o allu i batrolio'r môr wedi'u datblygu. Roedd awyrennau tir wedi'u lleoli yn y ddau safle am gyfnod byr, ond trosglwyddwyd y rhai o Langefni i Fangor yn ystod wythnosau olaf y rhyfel.

Safle pwysig arall i ymdrechion y rhyfel oedd RFC Shotwick, a ailenwyd yn Sealand maes o law. Sefydlwyd ysgol hedfan ar y safle hwn er mwyn sicrhau bod digon o beilotiaid newydd yn cael eu hyfforddi.

***Ymunodd miloedd o ddynion a menywod o Gymru â'r gwasanaethau hedfan, gan gynnwys nifer o unigolion nodedig.***

***Efallai mai'r enwocaf oedd Capten Ira 'Taffy' Jones, DSO MC DFC a Bar MM.***

***Mewn pedwar mis yn unig wrth wasanaethu gyda Sgwadron Rhif 74 ym 1918, dywedir iddo gael tua 37 'buddugoliaeth' dros awyrennau'r gelyn.***

# Rhyfel y Môr 1914-1918



*HMS Cardiff* yn arwain llynges cefnfor yr Almaen i ildio yn y Firth of Forth, 21 Tachwedd 1918 © National Maritime Museum, Greenwich, Llundain (BHC0670)

**Prydain oedd ceffyl blaen y byd morwrol ym 1914, gyda'r llynges fasnachol fwyaf yn hwylio'r moroedd mawr dan warchodaeth a llygad barcud y Llynges Frenhinol.**

Ond roedd yr Almaen hefyd wedi bod yn prysur ehangu ei llynges ers y 1890au gyda'r nod o herio goruchafiaeth Prydain, gan arwain at "ras lyngesol" ddrud dros ben.

Felly, pan benderfynodd y Canghellor David Lloyd George godi trethi fel rhan o'i 'Gyllideb y Bobl' ym 1909, gwnaeth hynny nid yn unig er mwyn talu am sefydlu'r wladwriaeth les newydd ond tuag at waith adeiladu llongau ar raddfa fawr hefyd.

Er mwyn cynnal ei grym morwrol, gallai'r Llynges Frenhinol ddibynnu ar gyflenwad sicr heb ei ail o lo ager gan lofeydd y 'Morlys' yn ne Cymru. Roedd eu henwau – 'Ocean', 'Nixon's Navigation', 'The Naval' – yn adlewyrchu'r cysylltiad hwn.



Glofa Nixon's Navigation, Aberpennar. Trwy garedigrwydd Llyfrgelloedd Rhondda Cynon Taf

Dechreuodd perchnogion llongau preifat a'r llyngesau tramor ddilyn ôl troed y Llynges Frenhinol trwy losgi glo o'r Cymoedd, gan gyfrannu at dwf a ffyniant allforion glo de Cymru.

Gyda'r rhyfel ar y gorwel, neilltuwyd cynhyrchion y glofeydd hyn ar gyfer y llynges a fynnai 100,000-225,000 tunnell y mis, yn ogystal â llyngesau'r cynghreiriaid.

Roedd leiniau aros sylweddol ym Mynwent y Crynwyr a Phont-y-pŵl yn trefnu'r trenau glo arbennig a anfonwyd wedyn ar hyd rheilffyrdd y Canolbarth a'r Gororau i Scapa Flow a phorthladdoedd eraill y llynges.

Erbyn diwedd y rhyfel, roedd y trenau arbennig hyn – a fedyddiwyd yn 'Jellicoe Specials' (ar ôl Pencadlywydd y Grand Fleet) wedi dosbarthu 5 miliwn tunnell o lo ar ben y rhai a gludwyd ar longau yn uniongyrchol o ddociau Caerdydd.

Gyda rheolaeth y Sianel yn saff, a'r Grand Fleet yn Scapa Flow, roedd Prydain mewn sefyllfa i gludo'r fyddin i Ffrainc a chyflwyno môr-warchae a fyddai'n sgubo'r fflyd Almaenig o'r moroedd ac yn ailagor llwybrau mewnforion bwyd a deunyddiau craidd dros y dyfroedd.

Wedi'r holl wario a'r gwaith paratoi, dim ond un frwydr fawr a fu rhwng y llyngesau rhyfel yn y diwedd, sef Brwydr Jutland wrth iddi nosi ar 31 Mai 1916.

Roedd Hugh Evan-Thomas, a aned ar ystâd deuluol y Gnoll, Castell-nedd, yn swyddog poblogaidd ac uchel ei barch, ac erbyn 1916, roedd ganddo un o swyddi pwysica'r Llynges fel dirprwy lyngesydd a reolai longau rhyfel cyflym newydd dosbarth 'Queen Elizabeth' y Grand Fleet.

Yno i gefnogi llu'r llongau rhyfel cyflym oedd llongau Evan-Thomas, ond bu oedi ar ôl i fflaglong y Lion wneud camgymeriad wrth anfon signal – ond unwaith y cyrhaeddodd yr arwydd, gadawodd llongau Evan-Thomas eu marc trwy amddiffyn y llongau rhyfel cyflym drylliedig a dal y llynges Almaenig yn ôl tan iddi ddod dan warchae'r Grand Fleet am gyfnod byr, cyn dianc i'r gwyll.

Dangosodd brwydr Jutland nad oedd fflyd y Kaiser yn ddigon cryf a chadarn i fynd benben â'r Grand Fleet a goroesi ar y môr, ac er ei bod yn cael ei hystyried yn fuddugoliaeth strategol erbyn hyn, cafodd y Llynges ei sigo i'r byw ar ôl methu â sicrhau Trafalgar arall.

Daeth Evan-Thomas yn ffigwr canolog yn 'helynt Jutland' sy'n parhau hyd heddiw: ar un llaw, yn gyff gwawd fel gwasanaeth nad oedd yn ddigon mentrus, ac ar y llaw arall, yn destun edmygedd am ei arweiniad ar faes y frwydr ac am achub y llongau rhyfel cyflym.

Ymatebodd yr Almaenwyr i'r gwarchae trwy gyhoeddi 'cylch rhyfel' yn y dyfroedd a amgylchynai Ynysoedd Prydain yn Chwefror 1915, a olygai y gallai llongau masnach gael eu suddo'n gwbl ddirybudd.

**Arweiniodd hyn at un o ddigwyddiadau mwyaf drwg-enwog y rhyfel, pan gafodd llong deithio y *Lusitania* ei tharo gan dorpido llong danfor Almaenig yr *U-20* a suddo ger arfordir Iwerddon ar 7 Mai, gan ladd 1,265 ar ei bwrdd.**

Dechreuodd ail gyfnod o ryfela llongau tanfor ym mis Chwefror 1917, gyda'r nod o newynu Prydain nes iddi ildio. Buan y daeth ei bregusrwydd i'r amlwg, wrth i fwy a mwy o longau a nwyddau gael eu suddo, o 520,000 tunnell yn Chwefror 1917 i 800,000 erbyn mis Ebrill.

Daeth y Môr Celtaidd a Môr Hafren yn dir ffrwythlon i longau tanfor yr Almaen. Mae Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru wedi cofnodi tua 170 o longddrylliadau o amgylch arfordir Cymru, testun ymchwil bellach fel rhan o brosiect wedi'i ariannu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, 'Y Rhyfel Anghofiedig yn erbyn Llongau Tanfor yr Almaen ar hyd Arfordir Cymru'.




**Llun gan Brifysgol Bangor o ddata a gafwyd yn ystod prosiect SEACAMS2, wedi'i ariannu'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop trwy Lywodraeth Cymru**

Llwyddwyd i oresgyn bygythiadau'r llongau tanfor Almaenig o fis Mehefin 1917 ymlaen trwy drefnu confoi o longau masnach, a oedd yn anos i'w holrhain yn y moroedd mawr ac yn haws i'w hebrwng a'u hamddiffyn. Ffactor allweddol arall oedd cyflwyno system dogni bwyd dan gyfarwyddyd y gwleidydd a'r diwydiannwr D. A. Thomas, Iarll Rhondda (a oedd wedi goroesi suddo'r *Lusitania*) fel Gweinidog Rheoli Bwyd y llywodraeth Ryddfrydol.

**Isod: Y Llyngesydd Evan-Thomas, canol, yng nghwmni aelodau o'r criw a 'Jack y ci' ar fwrdd HMS Barham © IWM (Q 114829)**





**Morwr William Williams VC © Casgliad Kenneth Williams, trwy garedigrwydd Amgueddfa Cymru**



**Grŵp o fedalau'r Morwr William Williams VC, gan gynnwys Croes Fictoria © Amgueddfa Cymru – National Museum Wales**

Nawr ac yn y man, roedd cyfle i'r llongau masnach ddangos eu dannedd. Ym mis Mawrth 1918, llwyddodd y bacedlong *SS Sylvia* o Gaerdydd â'i gwn sengl i wthio'r gelyn yn ôl dan arweiniad y meistr, y Capten William Lobb, hefyd o Gaerdydd. Roedd yn 73 oed ar y pryd, ac enillodd Groes Gwasanaeth Eithriadol am ei ddewrder.

Ar y pegwn arall, collodd bachgen 15 oed o Aberdaugleddau, Edwin Cox, a oedd yn gogydd ar fwrdd *SS Sandhurst*, ei fywyd pan drawyd y llong gan dorpido yng Ngogledd y Sianel ar 6 Mai 1918.

Parhaodd cyrch y llongau tanfor Almaenig yn erbyn llongau'r Prydeinwyr a'r cynghreiriaid yn y Môr Celtaidd tan wythnosau olaf y rhyfel, pan suddwyd llong bost *RMS Leinster* o Ddulyn, llong lwythi *Hirano Maru* o Japan a llong osgordd *USCGC Tampa* oedd yn rhan o lynges America, gan arwain at golledion enbyd.



Un o'r tactegau a ddyfeisiwyd i wrthsefyll y llongau tanfor Almaenig oedd defnyddio llongau masnach wedi'u haddasu â gynnau cudd er mwyn denu'r llongau tanfor i ymosod ar wyneb y dŵr.



**Prif Is-swyddog George Prowse VC © Casgliad Medalau'r Arglwydd Ashcroft**
**Dde: Grŵp o fedalau'r Prif Is-swyddog George Prowse VC © Casgliad Medalau'r Arglwydd Ashcroft**

Bu'r morwr William Williams o Amlwch, Ynys Môn, yn gwasanaethu gyda chlod ar sawl llong 'Q' o'r fath, a chyflwynwyd Croes Victoria iddo wedi i long lo *HMS Pargust* o Gaerdydd suddo llong danfor *UC 29* ar 7 Mehefin 1917.

Cyn hynny, dyfarnwyd Croes Victoria i William Charles Williams o Gas-gwent ar ôl ei farwolaeth yn ystod glaniadau Cape Helles, Gallipoli ar 25 Ebrill 1915, fel aelod o griw'r *HMS River Clyde*.

Y trydydd morwr o Gymru i dderbyn Croes Victoria yn ystod y Rhyfel Mawr oedd y Prif Is-swyddog George Prowse o Landŵr, Abertawe, o Fataliwn Drake, Adran y Llynges Frenhinol; am ei arweiniad a'i ddewrder parhaus yn ystod cyrchoedd ger Arras, Ffrainc, ym mis Medi 1918.

Fe'i lladdwyd mewn brwydr yn fuan wedyn, a'r Groes Victoria a gyflwynwyd i'w weddw oedd yr olaf i gynnwys rhuban glas y llynges.

Daeth penllanw ymdrechion y Llynges Frenhinol yn oriau mân y bore, 21 Tachwedd 1918, pan adawodd llong ryfel ysgafn *HMS Cardiff* (a lansiwyd flwyddyn ynghynt gan Mrs Lloyd George) aber y Firth of Forth er mwyn arwain llongau llynges ddadfeiliedig a dadrithiedig yr Almaen i gaethiwed.

**A daeth rhyfel y môr i ben, ar draul 55,000 o fywydau o Brydain – 12,000 ohonynt yn aelodau o'r gwasanaeth masnach.**



# Lloyd George: ‘Pensaer Buddugoliaeth’[1]




**Cafodd David Lloyd George ei benodi’n Brif Weinidog llywodraeth glymblaid ym mis Rhagfyr 1916, gyda briff syml: mynd i’r afael â’r rhyfel gyda mwy o arddeliad. Ledled y wlad, roedd pobl o bob barn a lliw gwleidyddol yn gobeithio y byddai’n neilltuo’r un gallu ac arddeliad i’r rhyfel ag y gwnaeth pan oedd yn Weinidog Arfau Rhyfel ac Ysgrifennydd Rhyfel. Cafodd David Lloyd George ei frawychu gan golledion enbyd y Somme, a chredai fod modd ennill y rhyfel trwy ymosod ar gynghreiriaid yr Almaen i ffwrdd o ffosydd Fflandrys.**

Aeth benben â’r Maeslywydd Haig a’i gefnogwyr ar y Staff Cyffredinol ar y mater hwn, gyda hwythau’n dadlau y dylid canolbwyntio adnoddau’n llwyr ar Ffrynt y Gorllewin. Yn anfoddog, cytunodd David Lloyd George i gefnogi cyrch Passchendaele ym 1917, gan geisio dargyfeirio adnoddau i’r Eidal, Salonika, Mesopotamia, a Phalestina hefyd.

Ar y môr, cyflwynodd system gonfoi yn wyneb y bygythiadau gan longau tanfor yr Almaen.

Ym misoedd olaf 1918, dechreuodd David Lloyd George feddwl fod ei strategaeth wedi talu ar ei chanfed, pan gafodd Bwlgaria yn gyntaf ac yna Twrci ac Awstria eu gorfodi allan o’r rhyfel, gan adael yr Almaen ar ei phen ei hun.

Erbyn hyn, roedd David Lloyd George wedi llywio’r gwaith o gryfhau ac ad-drefnu lluoedd arfog Prydain, a oedd yn cynnwys sefydlu’r Awyrlu Brenhinol annibynnol ym mis Ebrill 1918.





**Uwch: Placard papur newydd o’r Daily Mirror yn dangos David Lloyd George © IWM (Art.IWM PST 13012)**

**Chwith: Capten Richard Lloyd George, Mrs Owen Thomas, Y Prif Weinidog David Lloyd George, ei wraig Margaret a’r Brigadydd-Gadfridog Owen Thomas yn Llandudno wedi anerchiad y Prif Weinidog ar y rhyfel mawr © IWM (Q 54471)**

*1 Kenneth Morgan, David Lloyd George: Welsh Radical as World Statesman (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1963), t. 85*



Yma ym Mhrydain, fe wnaeth ei lywodraeth ganiatáu pleidlais i fenywod dros 30 oed, a chyflwynwyd cynlluniau uchelgeisiol i ddiwygio'r system addysg a datblygu tai cymdeithasol wedi i'r rhyfel ddod i ben.

Wedi'r trafodaethau a arweiniodd at Gytundeb Versailles ym 1919, roedd David Lloyd George wedi disgyn rhwng dwy stôl, rhwng gofynion y Ffrancwyr am heddwch caled, a gobeithion yr Americanwyr am hawl pobloedd Ewrop i benderfynu drostynt eu hunain. Ychydig iawn oedd yn hapus gyda'r cyfaddawd yn y diwedd, ac ni lwyddodd Cynghrair y Cenhedloedd a oedd newydd ei sefydlu i gynnal y drefn ryngwladol newydd ond bregus. Gartref, chwalodd weledigaeth David Lloyd George o wlad 'addas i arwyr' yn y cyfnod o ddirwasgiad economaidd ar ôl y rhyfel, a chollodd ei swydd ym 1922.

Gadawodd waddol rhanedig ar ei ôl. Cafodd ei feirniadu o bob cwr. Ni chafodd fyth faddeuant gan Haig a'i gefnogwyr am yr hyn a welsent fel methiant go iawn i gyfarparu'r fyddin ar ffrynt y gorllewin. Mae llawer yn ystyried Cytundeb Versailles fel un a arweiniodd at dwf a datblygiad Natsïaeth yn yr Almaen, a Chynghrair y Cenhedloedd yn fethiant gwarthus.

Roedd ffeministiaid yn lladd ar ei lywodraeth am fethu â rhoi'r hawl gyfartal i fenywod bleidleisio. Yng Nghymru, cafodd rhai eu siomi'n llwyr am iddo beidio â chadw at ei air o gyflwyno ymreolaeth ar ôl y rhyfel. Bu rhyfel cartref yn Iwerddon a arweiniodd at rannu'r wlad ym 1922. Gwelwyd streiciau ac anghydfod diwydiannol ledled Prydain, ac roedd llu o gyn-filwyr yn chwerw gyda'r caledi economaidd a oedd yn eu disgwyl ar ôl dychwelyd adref. Erbyn hyn, mae'n hawdd iawn, mewn oes sy'n dueddol o ystyried y Rhyfel Byd Cyntaf fel 'anffawd' ('misadventure'[2]) yn ôl disgrifiad enwog David Jones, i weld bai ar arweiniad David Lloyd George. Ni ddylem anghofio am y nodweddion hynny a ddenodd gymaint o'i edmygwyr ar y pryd: ei egni, ei ddycnwch, a'i allu unigryw i gyfathrebu â phobl o sawl dosbarth a rhanbarth gwahanol. Dyma Brif Weinidog ddaeth â chapteiniaid diwydiant ac undebau llafur at ei gilydd, dyn a oedd yn teimlo'n gyfforddus gyda barwniaid y wasg, ac a anerchodd Eisteddfodwyr yn ei famiaith. Ni ddylem chwaith anghofio maint y broblem a oedd yn ei wynebu. Ganrif wedi'r Rhyfel Mawr, a dyfodol Prydain yn ansicr ar y naw eto, efallai y dylem edmygu medrusrwydd gwleidyddol David Lloyd George a ddisgrifiwyd fel cymysgedd o ysbrydoliaeth a chyfrwystra gan A. J. P. Taylor ('inspiration and guile'.[3]) Wrth ysgrifennu adeg canmlwyddiant geni Lloyd George ym 1963, soniodd Kenneth Morgan am ei yrfa fel 'decisive catalyst in the transition from Victorian Britain to the society of the twentieth century' a'i fod yn 'symbolized a new social revolution, that the day of the cottage-bred man had dawned'.[4]

Efallai y dylem hefyd gofio geiriau cyfoeswyr fel yr Arglwydd Beaverbrook, a oedd yn poeni am yr her uniongyrchol i ddiogelwch y wladwriaeth, a gyfeiriodd at David Lloyd George fel 'the greatest War Minister England had seen for over a hundred years'.[5]





**Uwch: David Lloyd George yn gadael gwesty'r Trianon Palace wedi i'r Almaenwyr dderbyn y Cytundeb Heddwch rhagarweiniol. Versailles, 3 Mai 1919 © IWM (Q 57041)**

**Top ac i'r dde: David Lloyd George yn ymddangos o dwll ymochel yn Fricourt, 12 Medi 1916 © IWM (Q 1179) / IWM (Q 1187)**

*2 David Jones, In Parenthesis ([1937] Llundain: Faber and Faber, 1969), Rhagair*
*3 A. J. P. Taylor, English History 1914-1945 (Rhydychen: Clarendon Press, 1965), t. 76*
*4 Kenneth Morgan, David Lloyd George: Welsh Radical as World Statesman (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1963), t. 85*
*5 Lord Beaverbrook, Politicians and the War 1914-1916 ([1928] London: Collins, 1960), p. 71. Mae Beaverbrook yn defnyddio 'England' yma, fel llawer o'i gyfoedion, i olygu 'Prydain'*

# Creu etifeddiaeth barhaol

## Owen Llywelyn, Rheolwr Estyn Allan a Chyfranogiad, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, sy'n trafod cyfraniad y Llyfrgell i weithgareddau Cymru'n Cofio yn 2018.


Yn ystod 2018 bydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn parhau â'r gwaith o greu corff parhaol o eitemau Cymreig i alluogi pobl o bob oedran i ddeall sut y newidiodd Cymru a'r byd o ganlyniad i'r Rhyfel Byd Cyntaf a'r cynadleddau heddwch.

I ychwanegu at y cannoedd o filoedd o ddelweddau ar wefan Cymru 1914 sy'n hanu o lyfrgelloedd, adrannau casgliadau arbennig ac archifdai Cymru, a'r adnoddau dysgu llwyddiannus ar Hwb a gynhyrchwyd ar y cyd ag Amgueddfa Cymru, bydd y Llyfrgell yn mynd ati i greu ffacsimili o lawysgrif 'Yr Arwr' gan Hedd Wyn, creu platfform digidol newydd i dynnu sylw at gasgliad David Lloyd George, a chynnal gwaith cadwraeth a digido ar gasgliad ffotograffau D. C. Harries o gyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf.


### 'Yr Arwr'

Mae dau gopi o awdl fuddugol Eisteddfod Genedlaethol Penbedw 1917 yn llaw Hedd Wyn yn cael eu cadw yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae un yn gopi drafft a ysgrifennodd Hedd Wyn dan y ffugenw 'Y Palm Pell', sy'n cynnwys nodiadau'r bardd ei hun ar ymyl y tudalennau.

Y llall yw'r copi o'r gerdd a enillodd y gadair iddo, ac a anfonwyd at yr Eisteddfod o bentref Fléchin yng Ngogledd Ffrainc ym mis Gorffennaf 1917. Yn y llawysgrif hon, sy'n rhan o gasgliad Eisteddfod Genedlaethol Cymru, defnyddia Hedd Wyn y ffugenw 'Fleur-de-lis'.



Hedd Wyn. Trwy garedigrwydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru



Awdl 'Yr Arwr' gyda nodiadau'r beirniaid.
Trwy garedigrwydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Mae'n cynnwys nodiadau, sylwadau a chywiriadau'r beirniaid T. Gwynn Jones, J. J. Williams ac Evan Rees (Dyfed) ar ymyl y tudalennau. Dyfed oedd yr Archdderwydd ar y pryd, ac ef a arweiniodd y seremoni ddramatig ym Mhenbedw pan orchuddiwyd y gadair â chwrlid du.

Mae'r awdl eisoes wedi ei digido, a bydd unedau Gwasanaethau Digido a Chadwraeth y Llyfrgell Genedlaethol yn creu ffacsimili i'w ddefnyddio wrth ddod â stori Hedd Wyn yn fyw yn ein gwaith ymestyn ac ymgysylltu, yn enwedig gydag ysgolion a phobl ifanc.

## David Lloyd George




**David Lloyd George yn areithio yn Dundee, Yr Alban © IWM (Q70208)**

David Lloyd George (1863–1945) yw'r gwladweinydd rhyngwladol enwocaf a gynhyrchodd Cymru erioed. Roedd ei ddylanwad yn drwm ar wleidyddiaeth Cymru, y Deyrnas Gyfunol ac Ewrop. Bu'n Aelod Seneddol Rhyddfrydol am hanner can mlynedd gan wasanaethu mewn llywodraeth yn ddi-dor rhwng 1905 a 1922. Ym mis Rhagfyr 1916 daeth yn Brif Weinidog ar ganol y Rhyfel Byd Cyntaf, a dal y swydd wedi etholiad 1918 fel arweinydd clymblaid gyda'r Ceidwadwyr. Ym 1945 fe'i hurddwyd yn Iarll Lloyd-George o Ddwyfor.

Mae adnoddau niferus a sylweddol yn ymwneud â David Lloyd George yn cael eu cadw yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar ffurf ffotograffau, effemera, ffilm, tapiau sain, llythyron, dyddiaduron, deunydd print a gweithiau celf. Mae'r Llyfrgell hefyd yn gartref i archifau pwysig amdano sy'n cynnwys papurau ei deulu, archif ei frawd William George, papurau Dr. Thomas Jones (Dirprwy Ysgrifennydd i'r Cabinet), casgliad ei ysgrifennydd personol A. J. Sylvester, casgliad y Fonesig Olwen Carey Evans a llythyron Megan Lloyd George, ei ferched, papurau Frances Stevenson, ei ysgrifenyddes a'i ail wraig, ac archif yr apêl i godi cofeb i Lloyd George yn Llundain.

Mae arddangosfa ar-lein ar Lloyd George, a gynhyrchwyd gan y Llyfrgell dros ddegawd yn ôl bellach wedi ei harchifo, a does dim mynediad cyhoeddus iddi. Bydd y Llyfrgell Genedlaethol yn creu arddangosfa ddigidol newydd ar Lloyd George, fydd yn cynnwys rhannau o'r arddangosfa wreiddiol ac eitemau newydd. Nod y cynllun hwn fydd coffáu bywyd a gwaith David Lloyd George, yn arbennig ei gyfraniad i wleidyddiaeth Prydain yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, a rhoi mynediad i bobl ar draws y byd i wybodaeth am David Lloyd George sy'n cael ei chadw yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.




**Fersiwn Cymraeg o bamffled enwog Lloyd George, 'We Can Conquer Unemployment', o 1929. Trwy garedigrwydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru**



**Ffotograff D.C. Harries o filwr gyda'i ferch Trwy garedigrwydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru**

## D. C. Harries

Ffotograffydd oedd D. C. Harries, yn gweithio o ddwy stiwdio yn Llandeilo a Rhydaman. Yn y casgliad o'i waith sydd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru ceir tua 1,200 o negyddion gwydr yn dyddio o gyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf, sy'n cynnwys portreadau o filwyr, yn ôl pob tebyg o'r ardal, yn eu gwisgoedd milwrol. Nid ydym yn gwybod pwy yw'r mwyafrif helaeth o'r milwyr yma na'u hanes, a dim ond nifer fechan iawn o'r unigolion sydd wedi'u hadnabod.

Dim ond tua 200 o'r negyddion sydd eisoes wedi'u digido a bydd y Llyfrgell yn cynnal gwaith cadwraeth, catalogio a digido er mwyn sicrhau bod rhan helaeth o'r casgliad yn dod yn hygyrch i bobl Cymru a'r byd.

Bydd y delweddau digidol ar gael i'w defnyddio ar gyfer prosiect cyfrannu torfol. Gall hwn gynnwys tagio ffotograffau gyda gwybodaeth am gatrawd ac insignia, chwilio drwy bapurau newydd y cyfnod am erthyglau perthnasol i'r ffotograffau, neu hyd yn oed adnabod ac enwi'r unigolion yn y ffotograffau. Nod y prosiect fydd gwneud y ffotograffau yn chwiliadwy a hygyrch, sicrhau cadwedigaeth y deunyddiau gwreiddiol, ac agor y casgliad i ymchwilwyr, haneswyr teulu a'r rhai sy'n ymddiddori yn hanes y rhyfel.

# Cofio yn Amgueddfa Cymru



Cae pabïau Amgueddfa Cymru © AC-NMW

***Eleni, bydd Amgueddfa Cymru yn myfyrio ar ddiwedd y Rhyfel Mawr, sut y bu pobl yn dathlu'r achlysur ar y pryd, ei goffáu wedyn a'i gofio heddiw. Hanes menywod fydd ein hail bwyslais; byddwn yn ystyried byd gwaith merched ar y pryd, sut y cawsant eu trin a'u hymgyrchoedd dros yr hawl i bleidleisio.***

Ein prif arddangosfa fydd **Pabi'r Coffáu, 21 Gorffennaf 2018 – 7 Ionawr 2019** yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Bydd yn ystyried sut y daeth y pabi'n symbol i'r cofio ac yn gyfle i gnoi cil a myfyrio ar golled ac adfer. Ar ben hynny, bydd yr arddangosfa'n darparu gwybodaeth am wyddoniaeth bioamrywiaeth pabi, ac yn bwrw golwg ar rywogaethau gwahanol o babïau a beth yw'r bygythiadau i'w bodolaeth. Law yn llaw â hyn, bydd yr arddangosfa yn cynnal gweithdai ac yn galw ar y cyhoedd i greu 40,000 o babïau i goffáu'r Cymry hynny a fu farw yn y Rhyfel Byd Cyntaf.

Bydd Amgueddfa Lechi Cymru yn gartref i un o brif uchafbwyntiau eraill 2018 – **Cofeb, 23 Gorffennaf – 31 Rhagfyr 2018,** a fydd yn canolbwyntio ar gofeb tra arbennig Pen-yr-Orsedd yn Nyffryn Nantlle. Trwy weithgareddau dwys gydag ysgolion lleol, artistiaid, haneswyr a grwpiau cymuned, byddwn yn defnyddio celf, barddoniaeth a cherflunwaith i gofio'r dynion lleol a laddwyd yn y rhyfel. Mae aelodau Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Nantlle eisoes yn mynychu gweithdai yng ngefail yr Amgueddfa er mwyn creu pabïau metel.

Mae menywod a'r ffrynt cartref yn parhau'n rhan bwysig o'n hymateb i ddigwyddiadau cofio'r Rhyfel Mawr. Mae Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe yn datblygu arddangosfa **Gobaith Caneri? Menywod y Miwnishons, Medi – Rhagfyr 2018.** Cafodd menywod eu cyflogi i weithio mewn ffatrïoedd arfau rhyfel yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf a'u llysenwi'n Munitionettes neu Canary Girls. Er ei fod yn waith caled a pheryglus, cafodd y merched hyn flas ar ryddid newydd wrth eu gwaith a thu hwnt.

Byddwn ni'n cynnal digwyddiadau mewn sawl safle am y ffrynt cartref a chyfraniad menywod i'r ymdrech ryfel, yn enwedig fel rhan o ddathliadau Diwrnod Rhyngwladol y Menywod ar 8 Mawrth – ganrif union ers pasio'r ddeddf gyntaf a roddodd hawl i fenywod bleidleisio yn yr Etholiad Cyffredinol am y tro cyntaf erioed.



Panel o arddangosfa Pabïau Amgueddfa Cymru © ACNMW

Rydyn ni'n sefydlu prosiect garddio yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau fel rhan o brosiect celf penwythnos a'r Rhyfel Byd Cyntaf 'Now the Hero' ledled Abertawe. Bydd yn cynnwys gweithio gyda grwpiau cymuned, yn ddysgwyr a gwirfoddolwyr, er mwyn datblygu cynlluniau ar gyfer gardd, creu'r gwelyau, tyfu planhigion a chynhyrchu cawl a mwy o gynnyrch yr ardd.

Bydd Sain Ffagan yn cydweithio ag Oakdale ac aelodau o gymuned y lluoedd arfog gydol 2018 i wneud gwaith ymchwil ar y cyd i Ddawns Fuddugoliaeth y Rhyfel Byd Cyntaf a gynhaliwyd yn Institiwt y Gweithwyr Oakdale ddechrau 1919. Gyda'i gilydd, byddant yn archwilio'r digwyddiadau hanesyddol a arweiniodd at sefydlu'r ddawns, beth oedd yn ei olygu i'r gymuned ym 1919, a beth oedd ymateb y milwyr a ddychwelodd o faes y gad at eu teuluoedd a'u ffrindiau. Bydd cyfle i ailgreu'r ddawns fawreddog yn 2019 a ffilmio'r cyfan, i'w defnyddio fel nodwedd barhaol o waith dehongli'r adeilad.

Rydym yn edrych ymlaen yn eiddgar at agor oriel **Dyma yw Cymru** yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru ym mis Hydref 2018. Bydd rhan o'r oriel yn canolbwyntio ar y Rhyfel Byd Cyntaf ac yn adrodd hanes defnyddio Castell Sain Ffagan fel ysbyty adfer i filwyr. Bydd yr arddangosiad yn cynnwys eitemau cain a wnaed gan filwyr yn yr ysbyty fel rhan o'u sesiwn therapi; sy'n wrthgyferbyniad trawiadol i erchylltra'r rhyfel. Fel rhan o'n gwaith parhaus gyda chymunedau o bob lliw a llun, dyma gynhyrchiad ar y cyd â milwyr ddoe a heddiw, a chyn-filwyr sydd wedi cyfrannu straeon llafar i'r oriel.






Hefyd yn Sain Ffagan, bydd atgynhyrchiad 3D o *Y Gadair Ddu*, a ddyfarnwyd i'r prifardd Hedd Wyn yn Eisteddfod Genedlaethol Penbedw 1917 wedi iddo farw, yn cael ei arddangos. Comisiynwyd Ysgol Beirianneg Prifysgol Caerdydd gan Lywodraeth Cymru i greu'r gadair hon, mewn partneriaeth ag Amgueddfa Cymru a Pharc Cenedlaethol Eryri, ac mae wedi teithio o amgylch Cymru a Gwlad Belg fel rhan o ddigwyddiadau **Cymru'n Cofio**.



Yn Amgueddfa Wlân Cymru, mae ein gwirfoddolwyr yn cymryd rhan ym Mhrosiect Canmlwyddiant Tecstilau, dan law Wonderwool Wales, i greu gosodiad tecstiliau cymunedol o 887,858 o babïau i goffáu pob person o'r DU fu farw dros eu gwlad. Rydym yn gobeithio arddangos y gosodiad hwn yn yr amgueddfa yn ystod 2018. Ym mis Tachwedd, byddwn yn arddangos ein hymatebion i gystadleuaeth flynyddol y colegau dan y teitl 'Menywod mewn Rhyfel' eleni, gan ymhelaethu ar ein thema allweddol.

Byddwn yn parhau i ychwanegu at ein prosiect digido ar-lein y Rhyfel Byd Cyntaf, gan adeiladu ar y gwaith a wnaethpwyd eisoes, i sicrhau bod cymaint ag sy'n bosib o eitemau yn ymwneud â'r Rhyfel Byd Cyntaf i'w gweld ar-lein.

Mae ein harddangosfeydd symudol yn parhau i fynd ar daith, gyda **Y Diwydiant Gwlân dan gwmwl du, 11 Tachwedd 2017 – 4 Mawrth 2018** ac yna **Tros Ryddid ac Ymerodraeth, Hydref 2018 – Mawrth 2019** i'w gweld yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe. Bydd **Gwaith a Buddugoliaeth, 22 Ionawr – 5 Gorffennaf 2018** yn ymweld ag Amgueddfa Lechi Cymru a **Tros Ryddid ac Ymerodraeth, Chwefror–Mehefin 2018** i'w gweld yn Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru.

I weld holl fanylion a dyddiadau arddangosfeydd a gweithgareddau Amgueddfa Cymru, ewch i **www.amgueddfa.cymru** neu dilynwch ni ar Twitter **@amgueddfaCymru**

**Gwaelod ac i'r chwith: Tlws pili pala © AC-NMW**

**Canol: Ysbyty Sain Ffagan © AC-NMW**

**Uwch ac i'r dde: Pabi o ardd babïau AC-NMW © AC-NMW**



# Ysgol Aberdâr


**Y Rhyfel Byd Cyntaf yw un o'r rhyfeloedd y sonnir mwyaf amdano mewn hanes modern. Gyda thros 16 miliwn o bobl gyffredin a milwyr yn gelain, arweiniodd y frwydr ffyrnig fecanyddol hon at dywallt gwaed ledled y byd.**

Ein nod ni, gyda Mosäig y Rhyfel Byd Cyntaf Aberdâr, oedd cyflwyno'r rhyfel ar lawr gwlad.

Mae'n ein galluogi ni i roi cyfle i'n cymuned a'n dysgwyr gofio'r rhai a aberthodd eu bywydau dros y dyfodol, a sut yr helpodd tref fach yng Nghwm Cynon i lywio'r byd modern.

Trwy gynnwys dysgwyr Cyfnod Allweddol 3 yn y gwaith o gynllunio a gweithredu'r prosiect, ein gobaith yw dangos i genedlaethau heddiw ac yfory na ddylem fyth anghofio rhywbeth dim ond achos ei fod wedi digwydd dros ganrif yn ôl.

Aeth y dysgwyr ati i gynllunio a dylunio'r tri mosäig, ar gyfer y blynyddoedd 1914–1916, 1916–1918, a diwedd y rhyfel.



**Uwch: Un o'r mosaigau cyflawn © Ysgol Gymunedol Aberdâr**

**Canol: Disgyblion blwyddyn 9 Ysgol Aberdâr yn creu eu mosäig © Ysgol Gymunedol Aberdâr**

**Gwaelod: Disgyblion blwyddyn 9 Ysgol Aberdâr yn creu eu mosäig © Ysgol Gymunedol Aberdâr**



Roedden nhw'n rhan allweddol o'r broses o osod y teils yn eu lle a'u growtio nhw.

Daeth y dysgwyr i werthfawrogi cyfraniad eu cyndeidiau mewn brwydr fawr, gan y bydd enwau'r meirwon yn cael eu hysgrifennu ar fframiau'r mosäig.

Mae cyswllt anorfod rhwng ein diwylliant a'n treftadaeth a rhyfeloedd byd-eang, ac roeddem yn teimlo ei bod hi'n bryd i'n tref ni gydnabod y fath aberth a wnaed dros gadw'r byd yn rhydd o ormes a gorthrwm.

Fe fwynhaodd y dysgwyr a'r staff y profiad yn fawr iawn, ac rydym yn gobeithio parhau i gydweithio â'n Hadran Gelf am flynyddoedd i ddod.





# Ysgol David Hughes

**Trefnodd criw o fyfyrwyr Blwyddyn 12 arddangosfa lwyddiannus dros ben yn Oriel Ynys Môn, gydag agoriad ffurfiol ar 27 Mawrth 2015.**

Enillodd y myfyrwyr nifer fawr o sgiliau yn sgil y prosiect. Cafwyd sesiwn ar sgiliau ymchwil gan Ceri Williams, Oriel Ynys Môn er mwyn dysgu sut i ddefnyddio archifdy'n effeithiol ac er mwyn dysgu beth yn union yw gwaith curadu. Ar ôl i'r myfyrwyr gasglu'r wybodaeth roedd yn rhaid iddynt benderfynu ar gynnwys yr arddangosfa, gan ganolbwyntio ar effaith y Rhyfel Byd Cyntaf ar drigolion Ynys Môn. Mireiniwyd sgiliau datrys problemau y myfyrwyr a rhoddwyd cyfleoedd helaeth iddynt weithio gydag eraill yn effeithiol. Cafwyd sesiwn ar sut i farchnata'r arddangosfa gan aelod o'r Cyngor Sir, ac fe wnaed cais am arteffactau i'r gymuned leol gan ddefnyddio papurau newydd lleol a BBC Radio Cymru. Yn dilyn yr hyfforddiant hwn gan Swyddog y Wasg, y myfyrwyr oedd yn llwyr gyfrifol am drefnu ac ysgrifennu'r erthyglau ac am siarad ar y radio.

Ar Ddiwrnod Kids in Museums bu'r myfyrwyr yn gyfrifol am redeg Oriel Ynys Môn ac am drydar ar gyfrif yr ysgol am y profiad. Bwriwyd ati, hefyd, i guradu'r holl adnoddau a gasglwyd, gan ddysgu sut mae gosod yr ystafell ar ffurf arddangosfa a sut mae defnyddio byrddau arbennig. Roedd yn rhaid gweithio i amserlen dynn iawn er mwyn sicrhau bod yr arddangosfa yn agor i'r cyhoedd ar 27 Mawrth, felly fe fireiniwyd sgiliau trefnu amser y myfyrwyr. Sicrhawyd hefyd bod taflenni addysgol wedi eu creu ar gyfer plant a disgyblion.

Trefnwyd noson lansio ardderchog yn yr Oriel ac fe sicrhaodd y myfyrwyr bod y gwahoddiadau wedi eu creu a'u hanfon yn broffesiynol, bod y lluniaeth yn addas, a'u bod yn rhoi areithiau agoriadol yn ddwyieithog. Roedd ymateb y cyhoedd i'r arddangosfa, ar lafar ac yn y llyfr ymwelwyr, yn ganmoliaethus iawn.

Ond nid dyna ddiwedd y stori. Yn dilyn llwyddiant yr arddangosfa yn Oriel Ynys Môn, derbyniodd rhai aelodau o'r criw wahoddiad i annerch Cynhadledd Cymru dros Heddwch yn Wrecsam. Fe wnaeth hynny, yn ei dro, arwain at weithdy Cymru dros Heddwch i ddisgyblion Blwyddyn 10 gydag artist preswyl, lle roeddynt yn creu mosaigau. Bydd y mosaigau hyn yn cael eu harddangos yn y Deml Heddwch yng Nghaerdydd. Fe fu nifer o ddisgyblion mewn Cynhadledd Cymru dros Heddwch yng Nghaernarfon yn edrych ar sut y gellir hybu heddwch trwy ddulliau digidol a chelfyddydol. Yn Hydref 2016 daeth cyfle i gystadlu yng ngwobrau cenedlaethol heddwch Cymru dros Heddwch ac fe enillodd chwech o'n disgyblion wobrau am eu gwaith ysgrifennu a chelf. Cafodd y gwaith hwn ei arddangos i'r cyhoedd yn Oriel Pendeitsh, Caernarfon.

Erbyn hyn, mae Ysgol David Hughes wedi ymrwymo i fod yn un o dair ysgol beilot ar y cynllun Ysgolion Heddwch Cymru, ac mae'r gwaith a gychwynnodd gyda grant o £1,000 yn mynd yn ei flaen. Nid y criw bach o ddisgyblion a weithiodd yn ddiwyd i greu arddangosfa ar y Rhyfel Byd Cyntaf yw'r unig rai sydd wedi elwa o'r grant hwn, mae'r gwaddol yn parhau.

**Uwch: Disgyblion Ysgol David Hughes yn eu noson lansio yn Oriel Ynys Môn**
**© Ysgol David Hughes**

**Dde: Disgyblion Ysgol David Hughes**
**© Ysgol David Hughes**

# Fflandrys a Chymru:
## Symposiwm Rhyfel Byd Cyntaf




Ffoaduriaid o Wlad Belg yn Aberteifi, Rhagfyr 1914. Trwy garedigrwydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Ym mis Tachwedd 2017, ganrif ar ôl i'r brwydro mawr yn Passchendaele ddod i stop yng nghanol llaid a llaca Fflandrys, daeth academyddion, ieithyddion, gwleidyddion, artistiaid ac aelodau'r cyhoedd ynghyd yn y Pierhead, Bae Caerdydd, i archwilio'r Rhyfel Mawr o safbwynt Cymru a Fflandrys. Gan ddechrau trwy ystyried cyrch Passchendaele, pam y digwyddodd, beth oedd yn gobeithio'i gyflawni, a sut mae wedi'i bortreadu gan hanes ers hynny, aeth siaradwyr gwahanol y symposiwm ymlaen i drafod profiad ffoaduriaid, arlunwyr a cherddorion o Fflandrys yng Nghymru yn ystod y rhyfel, a phrofiad milwyr Cymreig ym myddin Prydain. Roedd safbwyntiau'r sgyrsiau yn amrywio o'r cenedlaethol i'r personol, ac o'r rhanbarthol i'r lleol, gan roi stamp newydd ar brofiadau amrywiol sifiliaid a milwyr o Gymru a Fflandrys a gafodd eu dal yn yr hyn a alwyd yn 'drobwll rhyfel' gan Lloyd George.

Roedd sawl papur yn trin a thrafod cwestiwn ffoaduriaid o Wlad Belg, a rhai o Fflandrys yn arbennig. Esboniodd Christophe Declercq (UCL Llundain a KUL Leuven) sut y daeth rhyw 4,500 o ffoaduriaid i Gymru, o'r filiwn a hanner o drigolion Gwlad Belg a wnaeth ffoi o'u cartrefi cyn i'r fyddin Almaenig gyrraedd yno yn ystod mis Awst, Medi a Hydref 1914. Clywodd y symposiwm gan yr hanesydd lleol Toni Vitti am y croeso gwresog a gafodd ffoaduriaid o Fflandrys yn y Rhyl, ac adroddwyd stori debyg am y croeso twymgalon a gafodd ffoaduriaid o Berchem (ger Antwerp) ym mhentref Talacharn gan y cyn-borthfaer, John Bradshaw, a'i wraig Janet.

Gan ddatblygu'r thema hon, cyflwynodd Rhian Davies, Cyfarwyddwr Artistig Gŵyl Gregynog, bapur diddorol am y cyngherddau a gynhaliwyd ar hyd a lled Cymru gan griw o gerddorion o Wlad Belg yn ystod y rhyfel, gan nodi sut y cawsant gymorth i ddianc o Frwsel gan Gwendoline a Margaret Davies, y chwiorydd a sefydlodd Ŵyl Gregynog. Bu Peter Theunynck, awdur o Fflandrys a ymgymerodd â phreswyliad yng nghanolfan ysgrifennu Tŷ Newydd, yn dadansoddi datblygiad Gustave Van de Woestyne yng Nghymru, peintiwr symbolaidd cyfriniol a gafodd ei ddylanwadu'n fawr gan Vincent van Gogh ac a oedd wedi'i swyno gan brydferthwch tirwedd Cymru. Gwaith y peintiwr a'r artist posteri Frank Brangwyn oedd pwnc trafod Hugh Dunthorne o Brifysgol Abertawe, yn enwedig y cymorth ymarferol a roddodd i artistiaid a oedd wedi ffoi o Fflandrys. Cyfeiriodd sawl siaradwr at berthnasedd oesol y straeon hyn, mewn byd lle mae miliynau lawer yn ffoi rhag gwrthdaro o bob math.




**Dr Gethin Matthews yn 'Fflandrys-Cymru: Symposiwm ar y Rhyfel Byd Cyntaf'. © Dr Toby Thacker**

Gan droi at brofiad milwrol y rhyfel, bu Gethin Matthews o Brifysgol Abertawe yn trin a thrafod profiad milwyr o Gymru ar Ffrynt y Gorllewin, gan holi i ba raddau roedden nhw'n ystyried eu hunain yn Gymry fel rhan o ymdrech filwrol amlgenedl Byddin Prydain. Ategwyd hyn ymhellach gan y bardd cenedlaethol Ifor ap Glyn, a fu'n trafod ymdrechion Byddin Prydain i sensro llythyrau Cymraeg gan filwyr o faes y gad at eu teuluoedd. Cyflwynodd enghreifftiau difyr a diddorol o ymdrechion y milwyr Cymraeg i fynd o gwmpas hyn, a mynegi eu hunain yn eu mamiaith i'w hanwyliaid 'nôl adref. Y gwrthwynebiad yng Nghymru i'r rhyfel gafodd sylw Aled Eirug o Brifysgol Abertawe, yn enwedig profiadau'r rhai a alwodd eu hunain yn 'wrthwynebwyr cydwybodol', llawer ohonynt wedi'u carcharu am eu safiad.



**Dr Rhian Davies yn 'Fflandrys-Cymru: Symposiwm ar y Rhyfel Byd Cyntaf'. © Dr Toby Thacker**

Cafodd y symposiwm gefnogaeth hael gan Lywodraethau Cymru a Fflandrys, yn ogystal â Phrifysgol Caerdydd. Agorwyd y cyfan gan Lywyddion y Cynulliad Cenedlaethol a Senedd Fflandrys (Vlaams Parlement). Mewn sylwadau cloi, nodwyd sut mae digwyddiadau cofio ledled gwledydd Prydain ac Ewrop ers 2014 wedi arwain at fwy o bwyslais ar brofiadau'r cenhedloedd llai, cymunedau ar wahân, ac felly unigolion a oedd wedi cael fawr ddim sylw hyd yma. Rydym yn edrych ar y rhyfel erchyll hwn mewn goleuni hollol newydd, un y mae ei sgileffeithiau i'w teimlo hyd heddiw, ac mae'r symposiwm hwn wedi cyfoethogi ein dealltwriaeth a'n gwybodaeth am brofiadau penodol Cymru a Fflandrys o'r rhyfel. Hefyd, er i'r rhyfel esgor ar drais a dioddefaint heb eu tebyg o'r blaen, arweiniodd at gyfleoedd newydd i gymunedau a chyfeillgarwch newydd, creadigrwydd artistig, a chydweithredu rhwng grwpiau heb fawr o gysylltiad â'i gilydd o'r blaen. Bydd yn sbarduno rhagor o waith ysgolheigaidd ar brofiadau pobl Cymru a Fflandrys o'r rhyfel, ac cryfhau rhagor ar y berthynas gref a hirhoedlog rhwng cenedl y Cymry a'r Fflandrysiaid.




**Poster at gyfer y Symposiwm Academaidd ar 9 Tachwedd 2017 © Julian Walker, UCL**



# Aduniad y tri brawd yn Rwmania yn y Rhyfel Byd Cyntaf

**Roedd Duncan a Gerard Fitzwilliams yn Ysbyty Mircea yn Roman, Rwmania, ym mis Gorffennaf 1917, pan ymddangosodd eu brawd ieuengaf, John. Roedden nhw'n meddwl ei fod gartref yn gwella o'r anafiadau a gafodd yn Ffrainc, lle'r oedd yn arwain magnelfa. Ond yn hytrach na'i anfon yn ôl i faes y gad yn unol â'r disgwyl, fe'i hanfonwyd ar gyrch arbennig i Rwsia a Rwmania gan y Swyddfa Ryfel.**



**Capten J. K. Fitzwilliams o'r Magnelwyr Ceffylau Brenhinol © IWM (HU 122144)**




**Llun o'r Capten G H L Fitzwilliams ar ddyletswydd yn Rwmania, 1917. Trwy garedigrwydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru a'r teulu Fitzwilliams**

Fel llawfeddygon o fri, roedd Duncan a Gerard wedi bod yn Rwmania ers blwyddyn gyda'r Groes Goch Brydeinig. Roedd John, ar y llaw arall, wedi'i anfon ar berwyl tipyn anoddach. Gofynnwyd iddo fynd o amgylch unedau byddin Rwsia a oedd yn brwydro ar y ffrynt yn Rwmania er mwyn eu hannog i ddal ati i frwydro yn erbyn yr Almaenwyr ac anwybyddu sïon heddwch y Bolsiefigiaid. Byddai'r lluoedd yn cael eu hymgynnull mewn minteioedd mawr gan y swyddogion Rwsiaidd i'w glywed yn siarad.

Roedd pum brawd Fitzwilliams i gyd, pob un yn gwasanaethu gyda'r fyddin; a thri wedi marw yn y lluoedd cyn y rhyfel. Roedden nhw'n hanu o ystâd Cilgwyn, Castellnewydd Emlyn, ac yn wyrion i'r bargyfreithiwr peniog Edward Crompton Lloyd Hall, a newidiodd ei enw i Fitzwilliams ym 1849. Fe oedd y 'Beca' ym Merched Beca yn ôl Gwyn Alf Williams yng nghyfres ddogfen deledu *Confrontations with the Past*.

Ddiwrnod cyn aduniad y tri brawd, roedd John wedi cwrdd â Chardi arall o'r enw Griffith Pugh Evans ffrind teuluol o ystâd Gelli Angharad ger Aberystwyth, ac a weithiai gyda Llysgenhadaeth Prydain yn Jassy, prifddinas Rwmania adeg y rhyfel. Bu'n gwasanaethu ar ffrynt y gorllewin gydag uned y cerbydau arfog tra cafodd Lewis ei frawd, a oedd yn uwchfrigadydd, ei urddo â medalau di-ri gan gynnwys un Groes Victoria a dwy fedal DSO.

Roedd Rwsia'n prysur chwalu'n ddarnau ac yn dod yn fwyfwy peryglus ar y pryd. Roedd y Tsar wedi ildio'r goron, a newidiadau gwleidyddol mawr yn y wlad. Roedd y Prydeinwyr yn poeni beth fyddai'n digwydd petai'r ffrynt dwyreiniol yn dymchwel (fel y digwyddodd yn ddiweddarach, gyda 51 o adrannau Almaenig yn cael eu trosglwyddo i'r gorllewin), ac wedi datblygu cynlluniau i'w gwneud hi mor anodd â phosib i'r gelyn ennill tir. Felly, cafodd John dasg newydd a'i atodi wrth yr hyn a elwid yn 'Arson Brigade', lle dysgodd sut i baratoi i ddymchwel pontydd a chyffyrdd rheilffyrdd a cherbydau.



**Yr Uwchgapten Fitzwilliams, O. C. 53ain Ysbyty Sefydlog, ar fwrdd y llong Brydeinig "Stephen". Murmansk, Gorffennaf 1918 © IWM (Q 17011)**

Yna, dywedwyd wrtho am ymgyfarwyddo â ffynhonnau olew a'r holl beiriannau cysylltiedig. Roedd ffynhonnau Pliestri, de Rwmania, sef cynhyrchwyr olew mwya'r byd yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, eisoes yn nwylo'r Almaenwyr, er bod yr Is-gyrnol John Norton-Griffiths wedi dinistrio 70 o burfeydd ar ei liwt ei hun i bob pwrpas cyn i'r Almaenwyr eu cipio ym 1916. Felly, roedd y ffynhonnau olew a oedd yn weddill i'r Cynghreiriaid ymhellach i'r gogledd yn llawer mwy cyntefig.

Ychydig fisoedd yn ddiweddarach, roedd John wedi symud dros y ffin i Kiev (Kyiv), prifddinas Ukrain, a chanfod ei hun yng nghanol rhyfel cartref. I gymhlethu pethau, roedd rhai'n gobeithio y gallai Ukrain dorri'n rhydd a sicrhau annibyniaeth o Rwsia. Ond erbyn dechrau mis Chwefror, roedd y Bolsiefigiaid wedi cipio Kiev a gorfodi byddin Ukrain i ffoi. Cafodd John hyd yn oed fwy o gyfrifoldebau wedyn, a threuliodd gryn amser yn trin a thrafod gyda'r awdurdodau.

Roedd pethau'n prysur ddirywio, a phenderfynwyd symud y Groes Goch Brydeinig a'r ddirprwyaeth allan o Rwsia. Rhywsut neu'i gilydd, disgynnodd y cyfrifoldebau ar ysgwyddau John, ac ef oedd yn gyfrifol am drefnu i symud pawb ar drên i Foscow. Roedd Gerard hefyd yn Kiev, yn gyfrifol am y gwasanaeth ambiwlans, tra cafodd Duncan ei anfon tua'r gogledd i Archangel ar 3 Rhagfyr 1917, i fod yn llawfeddyg ymgynghorol i Ymgyrch Gogledd Rwsia.

**Uwch ac i'r chwith: Brenin Ferdinand I o Rwmania yn siarad â lluoedd ei wlad yn Iasi, 1917. © IWM (Q 76454)**

**Gwaelod ac i'r chwith: Map Almaenig yn dangos canolbwynt y rhyfel ym 1918 a'r ymgyrch yn nwyrain Ewrop © IWM (Art.IWM PST 7639)**

**Uwch ac i'r dde: Y Tywysog Coronog Carol o Rwmania, sef Brenin Carol II o Rwmania yn ddiweddarach, gyda 51ain Catrawd y Troedfilwyr yn Sulena, 1917 © Q 76557**

**Cefndir: Map a gyhoeddwyd gan Isadran y Coleg Rhyfel, Staff Cyffredinol Adran Ryfel yr UDA, yn dangos y gororau rhyngwladol fel y cydnabyddwyd gan yr Unol Daleithiau ym 1917. Trwy garedigrwydd Awyrlu yr UDA**

Ar 3 Mawrth 1918, llofnododd y Rwsiaid gytundeb Brest-Litvosk gyda'r Almaenwyr. Ddeuddydd yn ddiweddarach, roedd John, a oedd bellach ym Moscow, wedi llwyddo i gael dau gerbyd ar Reilffordd Traws-Siberia. Drannoeth, gadawodd pawb ar daith tair wythnos tua'r dwyrain i Vladivostok ac i ddiogelwch. Gwasgwyd yr holl nyrsys ac athrawesau i'r cerbyd ail ddosbarth, ac yn y cerbyd trydydd dosbarth, trefnwyd lle i'r fetron, Miss MacGregor, i'r Fonesig Muriel Paget, y wraig ddyngarol a sefydlodd ysbytai i'r Rwsiaid, ac i 19 o ddynion, gan gynnwys Mr Bagge, Conswl Prydain yn Kiev.

Aelod arbennig iawn o'r grŵp oedd yr Athro Tomáš Masaryk, a ddaeth yn arlywydd cyntaf gwlad newydd o'r enw Tsiecoslofacia ymhen blwyddyn. Roedd John wedi'i smyglo allan dan yr enw John Smith, a chafodd ganiatâd gan neb llai na Joseph Stalin i adael Rwsia, ond doedd dim sicrwydd o'i ddiogelwch er bod dau warchodwr ar y trên. Yn ddiweddarach, ysgrifennodd Gerard fod gan Masaryk gymaint o feddwl o John Fitzwilliams fel y byddai wedi hoffi cael ei gymorth wrth greu byddin newydd Tsiecoslofacia.

Wedi pymtheng niwrnod o deithio caled (doedd dim clustogau ar y seddi) cyrhaeddodd y criw ddinas Irkutsk, ar lan Llyn Baikal, a fu unwaith yn brifddinas Siberia gyfan.





Cymerodd ddeng niwrnod arall i gyrraedd Vladivostok, gan fod rhaid iddynt deithio'n bellach hyd Ddyffryn Amur gan fod giang o filwyr gerila wedi torri'r lein i Harbin. Ar ôl cyrraedd Vladivostok, teithiodd John i Peking (Beijing) ble cwrddodd â'r Llyngesydd Kolchak yn Llysgenhadaeth Rwsia. Roedd Kolchak, fforiwr enwog yr Arctig a oedd yn ben ar lynges y Baltig, ar gyrch morol pan drodd pethau'n fwyfwy blêr a threisgar yn y chwyldro Rwsiaidd. Cyn i John ei gyfarfod, roedd wedi derbyn telegram yn dweud wrtho am ddychwelyd i weithio yng ngogledd Tsieina. O fewn blwyddyn, roedd yn ôl yn Rwsia gyda 300,000 o ddynion yn sefydlu llywodraeth wrth-Folsiefigaidd yn Omsk gydag ef ei hun fel y 'Goruchaf Reolwr', a'r arfau ac adnoddau wedi'u cyflenwi gan Lywodraeth Prydain yn bennaf. Chwe mis yn ddiweddarach, cafodd ei ddal gan y Bolsiefigiaid a'i saethu.

Yn y cyfamser, roedd John wedi dychwelyd i Lundain drwy America. Ar ôl cwrdd â'i wraig yng ngwesty'r Grosvenor, bu'n rhaid iddo ymddangos gerbron Swyddfa'r Rhyfel, lle gofynnodd am ganiatâd i ddychwelyd at ei fagnelfa yn Ffrainc. Roedd angen ychydig ddyddiau i drefnu hyn, felly bu'n lladd amser trwy fwynhau pryd gyda Griffith Pugh Evans yn y Wyndham Club, ymweld â Miss MacGregor yn ei chartref ysblennydd yn Grosvenor Street, a chiniawa gyda'i frawd hŷn, y Cyrnol Edward Fitzwilliams, yn y Reform Club. Ailymunodd â'i fagnelfa ar 21 Awst 1918, cyn cael ei ladd gan siel Almaenig wyth diwrnod yn ddiweddarach.




Milwyr o flaen "Cymru am Byth" wedi'i ysgrifennu ar ddrws y barics © Archifau Ceredigion

# Gwasanaethau Archifau

*Fel rhan o weithgareddau'r cofio, mae Gwasanaethau Archifau ar hyd a lled Cymru wedi bod yn cynnal pob math o arddangosfeydd, gweithdai a digwyddiadau thematig er mwyn annog cymunedau lleol i fanteisio ar eu casgliadau.*

Mae **Archifau a Chasgliadau Arbennig Prifysgol Bangor** wedi bod yn coffáu canmlwyddiant marwolaeth Ellis Humphrey Evans, sy'n fwy adnabyddus o dan ei enw barddol Hedd Wyn, gydag arddangosfa sy'n dathlu bywyd, gwaith a gwaddol y milwr a'r bardd o Drawsfynydd a laddwyd ar ddiwrnod cyntaf Brwydr Passchendaele, 31 Gorffennaf 1917. Mae'r eitemau dan sylw yn cynnwys drafft o'i awdl 'Yr Arwr' a enillodd gadair farddol Eisteddfod Genedlaethol 1917 ar ôl ei farwolaeth – sy'n enwog erbyn hyn fel 'Y Gadair Ddu'. Hefyd, ceir llythyr 'Rhiwle yn Ffrainc', lle mae'n disgrifio bywyd ar flaen y gad ar Ffrynt y Gorllewin. Mae'r darn hwn yn cynnwys disgrifiad enwog o flodau yn tyfu mewn hen siel – gwrthgyferbyniad rhwng prydferthwch a hagrwch bywyd.



Hedd Wyn © Archifau a Chasgliadau Arbennig Prifysgol Bangor

Ers Awst 2014, achlysur dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf, mae **Archifau Ceredigion** wedi bod yn dewis a dethol ac arddangos newyddion am hynt y rhyfel fesul wythnos, er mwyn rhoi syniad i ddarllenwyr heddiw sut wnaeth y rhyfel ddatblygu, a'r rhagdybiaethau lleol ohono, dros amser. Mae'r eitemau newyddion hyn o gan mlynedd yn ôl yn cael eu newid bob wythnos, a defnyddir llu o ffynonellau: papurau newydd lleol, eitemau o'r casgliadau fel straeon a llythyrau, cofnodion ysgol, lluniau a chardiau post, cofnodion y cyngor a rhestr o'r meirwon a gwybodaeth amdanynt sy'n deillio o brosiect y West Wales War Memorial Project. Mae'r prosiect hwn yn cynnig cipolwg hynod ddiddorol i ni o hynt y rhyfel a'i effaith ar gymunedau lleol, ac o'i hyd. Mae'r bwletinau'n cael eu harddangos ar hysbysfyrddau canolfannau Ceredigion ac ar gael i'w darllen ar flog Cofnodi'r Rhyfel Mawr.

Mae llythyrau wedi'u hanfon at anwyliaid gan filwyr ar faes y gad ymhlith yr eitemau sydd i'w gweld mewn arddangosfa sy'n coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf yn yr oriel hanes yn Oriel Môn. Ceir eitemau o gasgliad **Archifau Ynys Môn** yn yr arddangosfa ddirdynnol hon (a gafodd gymorth Cronfa Dreftadaeth y Loteri) sy'n dipyn o agoriad llygad, ac sy'n dangos effeithiau'r rhyfel ar yr ynys a'r werin bobl. Daw teitl yr arddangosfa – Bara Brith a Menyn Cartref – o lythyr gan filwr sy'n hiraethu am gysuron cartref. Cafwyd cymorth a chyfraniad pwysig gan gymunedau lleol i'r arddangosfa, trwy gyfrwng diwrnodau agored amrywiol mewn canolfannau cymuned ledled yr ynys a thrwy fenthyca llythyrau a lluniau gwreiddiol o'r rhyfel. Bu disgyblion ysgol a grwpiau Heneiddio'n Dda yn cymryd rhan hefyd trwy gyfres o weithdai ysgrifennu creadigol a gweithdai celf rhyng-genhedlaeth wedi'u hysbrydoli gan wrthrychau'r arddangosfa.



Cist bren yn perthyn i Edward Thomas (Casgliadau Arbennig ac Archifau, Prifysgol Caerdydd)

Mae **Casgliadau Arbennig ac Archifau Prifysgol Caerdydd**, sydd ag archif mwya'r byd o lythyrau, dyddiaduron, llyfrau nodiadau, cerddi, ffotograffau ac eiddo personol Edward Thomas, wedi cynnal cynhadledd o bwys i nodi'r canmlwyddiant a lansio arddangosfa i ddathlu bywyd a gwaith y bardd. Roedd yr arddangosfa'n cynnwys sawl uchafbwynt o'r archif: llythyron personol at Helen Thomas a Gordon Bottomley, drafftiau o farddoniaeth, dyddiaduron natur, lluniau teuluol, yn ogystal â recordiadau archif o deulu a ffrindiau heb eu clywed o'r blaen. Roedd yr arddangosfa'n archwilio perthynas Edward â cherdded a'r broses greadigol, ei berthynas â'i deulu, ei broblemau iselder, y datblygiad o ryddiaith i farddoniaeth, a'r penderfyniad i 'listio a arweiniodd at ei farwolaeth ym Mrwydr Arras. Ymhlith y digwyddiadau coffa eraill roedd cyfres o ddigwyddiadau barddoniaeth, gan gynnwys gweithdy ysgrifennu creadigol a noson unigryw o farddoniaeth meic agored.

Mae gwirfoddolwyr **Archifau Morgannwg** wedi casglu gwybodaeth am y Rhyfel Byd Cyntaf o bob math o gofnodion gwahanol, gan gynnwys cofrestri ysgolion, cofnodion awdurdodau lleol a chofnodion ysbytai. Mae'r mynegeion hynny'n agored i bawb ar wefan Archifau Morgannwg, ac wedi galluogi pobl i gyfrannu at wasanaethau coffa a sbarduno cyfres o flogbostiau parhaus. Ar ben hynny, maen nhw wedi cyfrannu at weithdy ysgolion a gyflwynwyd i sawl ysgol ar ymweliad, ac maen nhw ar gael i'w lawrlwytho o'r wefan gyda nodiadau ategol i athrawon.

Bydd digwyddiadau ac arddangosfeydd yn dal i gael eu cynnal gydol 2018, gyda sawl Gwasanaeth Archifau lleol yn cymryd rhan. Mae gan Archifau Cymru gyfoeth o ddogfennau, llythyrau, dyddiaduron, mapiau a ffotograffau o'r Rhyfel Byd Cyntaf. Os hoffech fwrw golwg ar gofnodion y Rhyfel Mawr, mae manylion cyswllt eich gwasanaeth archif lleol ar gael ar archifau.cymru.




Arddangosfa 'Pwy ydw i'n meddwl oeddwn i?' Archifau Morgannwg yn 2016. Trwy garedigrwydd Archifau Morgannwg



Cofeb ryfel Gwenfô
© Cadw, Hawlfraint y Goron

# Gwarchod eich cofebion rhyfel

**Mae cofebion rhyfel o Fôn i Fynwy yn hollbwysig wrth gofio am y Rhyfel Byd Cyntaf. Maen nhw'n fynegiant o golled, galar a balchder cymunedau lleol ac yn ganolbwynt y cofio, ac mae eu lleoliad yn aml yn adlewyrchu'r rôl gyhoeddus honno.**

Mae hyd at 5,000 o gofebion rhyfel yma yng Nghymru, ac maen nhw i'w canfod ym mhob cymuned fwy neu lai. Nid bod pob cofeb ar ffurfiau amlwg fel placiau neu gerfluniau chwaith. Mae gan Gymru sawl parc coffa, ysbytai a neuaddau pentref, wedi'u hadeiladu trwy danysgrifiad cyhoeddus, oll yn waddol o'r cofio i'w cymunedau.

Mae gofalu am y cofebion hyn yn ffordd o barchu ac anrhydeddu'r cof am filoedd o ddynion a menywod o Gymru a gafodd eu heffeithio gan y rhyfel.

Yn ystod cyfnod y cofio, cyhoeddodd Cadw ganllawiau newydd yn benodol er mwyn helpu cymunedau i ofalu am eu cofebion. Hefyd, lansiwyd cynllun grant Cadw ym mis Ebrill 2014 a oedd yn cynnig cymorth ariannol tuag at waith cadwraeth. Nod y canllawiau a'r cynllun grant yw diogelu ein cofebion rhyfel, gan helpu cymunedau i'w trwsio a'u cadw mewn cyflwr da, a sicrhau eu bod yn para at y dyfodol.

## Hefyd, aeth Cadw ati'n ddiweddar i restru cofebion rhyfel ychwanegol oherwydd eu harwyddocâd a'u pwysigrwydd. Er enghraifft:

Mae **Cofeb Ryfel Gwenfô** wedi'i chynnwys oherwydd bod iddi ddiddordeb pensaernïol arbennig fel cofeb ryfel anghyffredin mewn cyflwr da, sy'n dangos ôl crefftwaith arbennig a defnydd diddorol o ddeunyddiau lleol. Mae'n bwysig fel atgof amlwg o aberth y gymuned yn ystod y rhyfeloedd mawr, ac yn anghyffredin gan ei bod yn rhestru enwau pawb a wasanaethodd yn y Rhyfel Byd Cyntaf, nid dim ond y rhai a laddwyd.



**Cofeb ryfel Llanrhuddlad, Ynys Môn**
**© Cadw, Hawlfraint y Goron**

**Draw ar Ynys Môn**, mae cofeb ryfel Llanrhuddlad wedi'i rhestru fel un o ddiddordeb hanesyddol arbennig gan ei bod hi'n coffáu meirwon y ddau ryfel byd ac yn enghraifft o gofeb gerflun. Mae wedi'i gosod wrth fynedfa'r hen ysgol gynradd.

## Dyma rai o'r cofebion rhyfel sydd wedi elwa ar gynllun grant Cadw hyd yma:

**Neuadd Goffa'r Rhyfel Cricieth**, adeilad rhestredig gradd 2 a godwyd trwy roddion cyhoeddus fel cofeb i'r trigolion lleol a fu'n ymladd ac a syrthiodd yn y Rhyfel Mawr, ac sydd bellach yn cynnwys cofebion i'r rhai a laddwyd yn yr Ail Ryfel Byd. Cafodd y garreg sylfaen ei gosod gan y gwladweinydd a'r Prif Weinidog ar y pryd, David Lloyd George, ym 1922, ac mae'r Neuadd yn cynnwys ambell elfen Art Deco wreiddiol. Mae'r giatiau haearn gyr cain a gyfrannwyd gan Sefydliad y Merched Cricieth yn arwain drwy lawnt daclus at y brif fynedfa. Mae'r drysau derw cerfiedig â'u paneli gwydr Art Deco gwreiddiol yn amgylchynu'r cyntedd coffa â theils llechi. Roedd nawdd o £1,000 gan Cadw o gymorth i drwsio'r gwter, ailbeintio a gwneud gwaith atgyweirio arall.

**Ffenestr wydr lliw i goffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf, yn Eglwys Sant Paul, Grangetown, Caerdydd.** Mae'r eglwys yn gartref i un o'r cofebion mwyaf a mwyaf ysblennydd i'r rhai a syrthiodd yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Wedi'i gosod ym 1920 gan gwmni o fri, Burlison & Grylls o Lundain, mae'n unigryw oherwydd ei golygfeydd o'r awyrlu a'r llynges yn ogystal â dwy uned o'r fyddin a golygfa o'r ffosydd. Roedd nawdd o £1,000 gan Cadw o gymorth i drwsio'r gofeb drawiadol hon.

I gael rhagor o fanylion am gynllun grant Cadw ar gyfer cofebion rhyfel, a fydd yn parhau gydol cyfnod y canmlwyddiant, ewch i: www.cadw.gov.wales/historicenvironment/help-advice-and-grants/grants/grantsforwarmemorials/?skip=1&lang=cy

**Neuadd Goffa Cricieth, Gwynedd**
**© Cadw, Hawlfraint y Goron**



# Ffynonellau Cyllid - Prosiectau Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf



© Llyfrgell Genedlaethol Cymru

**Os ydych yn cynllunio prosiect i goffáu Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf yng Nghymru, dyma rywfaint o gyngor i chi ynghylch sefydliadau a all gynnig grantiau a chymorth ariannol arall.**

## Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Rhaglen 'Y Rhyfel Byd Cyntaf: Ddoe a Heddiw'

Mae rhaglen 'Y Rhyfel Byd Cyntaf: Ddoe a Heddiw' Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn darparu grantiau sy'n werth rhwng £3,000 a £10,000 er mwyn i gymunedau goffáu Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf.

Mae cyllid ar gael i helpu grwpiau, cymunedau a sefydliadau neu fudiadau i goffáu'r Canmlwyddiant drwy archwilio, gwarchod a rhannu treftadaeth y Rhyfel Byd Cyntaf – o gofebau, adeiladau a safleoedd i ffotograffau, llythyrau a llenyddiaeth. Mae'n rhaglen dreigl, sy'n golygu y gallwch wneud cais unrhyw bryd, a bydd y ceisiadau a ddaw i law'n cael eu hasesu cyn pen wyth wythnos.

Ewch i'w gwefan ar gyfer ffurflenni cais, arweiniad ac esiamplau prosiectau www.cymraeg.hlf.org.uk neu ebost: cymru@hlf.org.uk.

## Rhaglen 'Ein Treftadaeth' – Cronfa Dreftadaeth y Loteri

Mae'r rhaglen 'Ein Treftadaeth' ar gyfer unrhyw fath o brosiect sy'n ymwneud â threftadaeth genedlaethol, ranbarthol neu leol yn y DU. Mae grantiau ar gael sy'n werth rhwng £10,000 a £100,000. Croesewir ceisiadau gan sefydliadau neu fudiadau dielw, perchnogion preifat treftadaeth (gan gynnwys unigolion a sefydliadau neu fudiadau dielw) a phartneriaethau. Ewch i www.cymraeg.hlf.org.uk.

## Gwreiddiau Ifanc – Cronfa Dreftadaeth y Loteri

Mae'r rhaglen 'Gwreiddiau Ifanc' ar gyfer prosiectau sy'n ceisio cael pobl ifanc 11–25 oed i ymwneud â'u treftadaeth yn y DU. Mae grantiau ar gael sy'n werth rhwng £10,000 a £50,000 i ariannu partneriaethau rhwng treftadaeth a sefydliadau neu fudiadau ieuenctid, er mwyn helpu pobl ifanc i lunio a gweithredu eu prosiectau eu hunain mewn amgylcheddau diogel. www.cymraeg.hlf.org.uk.

## Cadw, Grantiau ar gyfer Cofebau Rhyfel yng Nghymru

Mae'r cynllun hwn wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Cofebau Rhyfel, a bydd yn helpu i ddiogelu cofebau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae grantiau sy'n werth hyd at 70% o'r costau cymwys (hyd at uchafswm o £10,000) ar gael i warchod ac atgyweirio cofebau rhyfel.

Yn ogystal â'r cynllun hwn, mae Cadw hefyd yn cynnig grantiau eraill er mwyn cyfrannu at gostau atgyweirio ac adfer asedau hanesyddol, ac mae'n darparu cyllid cyfatebol ar gyfer prosiectau a gaiff eu harwain gan gymunedau, awdurdodau lleol a'r trydydd sector.

I gael rhagor o wybodaeth ac arweiniad, ewch i'r adran Cymorth, Cyngor a Grantiau ar wefan Cadw: www.cadw.llyw.cymru.

## Yr Ymddiriedolaeth Cofebau Rhyfel

Mae grantiau i atgyweirio a gwarchod cofebau rhyfel ar gael gan yr Ymddiriedolaeth Cofebau Rhyfel.

Gall yr ymddiriedolaeth ddarparu cyngor hefyd ynghylch dulliau priodol o warchod cofebau www.warmemorials.org neu drwy ffonio 020 7233 7356.

## Cynllun Grantiau Cofebau

Gallai cymorth ychwanegol fod ar gael drwy'r cynllun hwn a gaiff ei redeg gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yng Nghymru a Lloegr, sy'n ad-dalu'r TAW y mae'n rhaid ei thalu wrth adeiladu, atgyweirio a chynnal a chadw cofebau. Ewch i www.memorialgrant.org.uk

## Cynllun Grantiau Bach Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru

Dan y cynllun hwn caiff grantiau eu cynnig i Amgueddfeydd yng Nghymru ddwywaith y flwyddyn, gyda blaenoriaeth yn cael ei rhoi i gefnogi prosiectau llai o faint. O 2017 bydd uchafswm cylch grant y gwanwyn yn cael ei gynyddu i £10,000, ac yng nghylch grant yr hydref £3,000 fydd yr uchafswm. Y gofyniad o ran cyllid cyfatebol fydd lleiafswm o 10% ar gyfer pob grant. Mae prosiectau llwyddiannus yn cynnwys prosiectau sy'n ymwneud â gwaith gwarchod, darparu offer arbenigol, gwasanaeth allgymorth a chyfleoedd dysgu gydol oes, datblygu cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth a darparu cyngor proffesiynol. Rhaid bod amgueddfeydd wedi'u Hachredu a rhaid eu bod wedi ymaelodi â'r Ffederasiwn. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'r dudalen Grantiau ar y wefan ganlynol: www.welshmuseumsfederation.org.

## Cyngor Celfyddydau Cymru

Os oes dimensiwn diwylliannol neu artistig yn perthyn i brosiect, gallech chi wneud cais am gymorth gan Gyngor Celfyddydau Cymru www.celfcymru.org.uk. Mae'r sefydliad hwn hefyd yn cynnig cyngor ynghylch sut i wneud cais am gyllid ac yn rhoi manylion nifer o ffynonellau eraill o gyllid sydd ar gael i sefydliadau neu fudiadau ac unigolion ym maes y celfyddydau.

## Ysgolion

Ar 11 Tachwedd 2017 lansiodd Llywodraeth Cymru linyn newydd i'r cynllun grant 'Ewch i Weld', sy'n ei gwneud hi'n bosib i bob ysgol yng Nghymru wneud cais am gyllid o hyd at £1,000 er mwyn mynd i ddigwyddiadau sy'n seiliedig ar y Rhyfel Byd Cyntaf. Gall y grant gael ei ddefnyddio i ariannu ymweliadau ag amgueddfeydd, theatrau, canolfannau celf, safleoedd y Rhyfel a lleoliadau eraill.

Gellir defnyddio'r cyllid hefyd i ymgysylltu â sefydliadau allanol neu unigolion i helpu i gyflawni'r gweithgareddau coffáu o fewn yr ysgol. Dylai'r gweithgareddau ganolbwyntio ar goffa parchus a'r elfen Gymreig yn ystod y cyfnod.

Mae gwefan *Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914-1918 yn darparu canolbwynt ar gyfer gwybodaeth am y newyddion diweddaraf, digwyddiadau, prosiectau a chyfeiriadau at wybodaeth sy'n ymwneud â gweithgareddau coffáu yng Nghymru os yw eich ysgol yn dymuno cymryd rhan.

Mae'r cymorth ariannol yn rhan o'r cynllun grantiau 'Ewch i Weld', sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru, fel rhan o'r rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau. Nod y cynllun yw gwella'r ffordd y mae sectorau ym meysydd y celfyddydau ac addysg yn gweithio ar y cyd i sicrhau bod athrawon a dysgwyr yn elwa ar gyfleoedd pwysig.

Mae'r meini prawf ar gyfer y cynllun grant bellach wedi'u hehangu i gynnwys rhoi cyllid i fynd i ddigwyddiadau ar gyfer cofio'r Rhyfel Byd Cyntaf. Mae'r grant hwn yn ategu'r grant i ysgolion uwchradd ar gyfer coffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf, sy'n parhau i dderbyn ceisiadau hyd at fis Mawrth 2018. Rhoddir y grant hwnnw i ddatblygu prosiectau creadigol ac arloesol i goffáu'r rhyfel. Am fwy o wybodaeth am y grantiau ysgol uwchradd ewch i wefan Llywodraeth Cymru.

Mae'r canllawiau a'r ffurflen gais ar-lein ar gael ar wefan Cyngor Celfyddydau Cymru:

www.arts.wales/arts-in-wales/creative-learning/the-all-wales-arts-and-education-programme/experiencing-the-arts/ewch-i-weld?diablo.lang=cym

## Cynnwys digwyddiadau ar wefan *Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914-1918

*Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914–1918 yw'r rhaglen swyddogol i nodi canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf yng Nghymru. Llywodraeth Cymru sy'n cydlynu'r Rhaglen, gan weithio mewn partneriaeth â chyrff ledled Cymru a thu hwnt. Mae gwefan y Rhaglen yn ganolbwynt ar gyfer gwybodaeth ar y newyddion, prosiectau a digwyddiadau diweddaraf.

I gynnwys eich digwyddiadau neu brosiectau ar wefan *Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914–1918, ewch i (www.cymruncofio.org/events/) neu (www.cymruncofio.org/projects/). Os ydych yn cyhoeddi unrhyw ddatganiadau i'r wasg ynghylch eich prosiect Rhyfel Byd Cyntaf yr hoffech eu hystyried ar gyfer gwefan *Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914-1918, anfonwch nhw at (www.cymruncofio.org/get-in-touch/). I rannu eich digwyddiadau ar ein cyfrif Trydar copïwch @cymruncofio

# Digwyddiadau

**Nid yw Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am ddigwyddiadau a drefnwyd gan gyrff, unigolion neu grwpiau allanol. Mae'n bosib y bydd yn rhaid neilltuo lle neu dalu i gael mynediad i rai digwyddiadau. Cysylltwch â threfnwyr y digwyddiad yn uniongyrchol am fanylion pellach.**

## TACHWEDD 2013

### 28 Tach 2013 - 11 Tach 2018

### Lansiad Arddangosfa Ddigidol y Rhyfel Mawr a'r Cymoedd

Merthyr Tydfil

www.merthyrww1.llgc.org.uk/cy/items/show/13

Yn ystod digwyddiad yn Y Coleg Merthyr Tudful ar ddydd Iau, 28 Tachwedd lansiodd John Griffiths AC, y cyn Weinidog Diwylliant a Chwaraeon, arddangosfa ddigidol Y Rhyfel Mawr a'r Cymoedd, a grëwyd gan yr hanesydd Dr Paul O'Leary o Brifysgol Aberystwyth. Mae'r arddangosfa'n ymdrin â chyfres o ddigwyddiadau penodol ym Merthyr Tudful a Chwm Cynon a hefyd yn ystyried sut gallwn goffáu'r gyfres amrywiol a dadleuol o ddigwyddiadau a ddigwyddodd yn ystod 1914-18.

Mae'n amlygu profiad dirdynnol bywyd yn y ffosydd ond mae hefyd yn sôn am y gwrthwynebiad at y rhyfel a'i effaith ar fywyd y tu allan i'r fyddin. Mae'r 'Ymgyrch Gartref' yn rhan bwysig o'r arddangosfa. Tynnir sylw at sut newidiwyd bywydau menywod gan y rhyfel a sut gohebwyd ar ddigwyddiadau dadleuol megis streic y glowyr ym 1915. Mae hefyd yn taflu goleuni ar y 'bwgan ysbïo' 1914 a dyfodiad grwpiau o ffoaduriaid o Wlad Belg.

Bydd cyflwyniad ar-lein Dr O'Leary yn aros yng Ngholeg Merthyr Tudful er budd y staff a'r myfyrwyr. Mae'r arddangosfa'n defnyddio llawer iawn o ddeunyddiau a gafodd eu digideiddio fel rhan o'r archif ddigidol ar-lein Y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Profiad Cymreig, gafodd ei lansio yn yr un digwyddiad (gweler www.cymruncofio.org/the-national-library-of-wales-launches-the-welsh-experience-of-the-first-world-war/).

Dywedodd y Gweinidog: "Ffrwyth cydweithio helaeth rhwng sefydliadau lleol a chenedlaethol yw'r arddangosfa ddigidol hon. Bydd yn helpu ein cymunedau i ddeall yn well effaith y Rhyfel Byd Cyntaf a'r newidiadau parhaus i'r gymdeithas yng Nghymru."

"Mae'n gyfraniad pellach i'r rhaglen eang i goffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf sy'n cael ei datblygu gan Lywodraeth Cymru."

Datblygwyd Y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Profiad Cymreig gan bartneriaeth wedi ei harwain gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru gydag Archifau a Chasgliadau Arbennig Cymru (sef Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Bangor, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Abertawe, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, BBC Cymru Wales, Casgliad y Werin Cymru a swyddfeydd archifau a chofnodion lleol Cyngor Archifau a Chofnodion Cymru sydd dan adain Cyngor Archifau a Chofnodion Cymru). Ariannwyd y prosiect gyda chymhorthdal £500,000 o gynllun e-Gynnwys Jisc fel rhan o'i gwaith i gefnogi addysg ac ymchwil, a gyda chefnogaeth y sefydliadau sy'n bartneriaid.

## GORFFENNAF 2014

### 15 Gor 2014 10:00am - 31 Hyd 2018 4:30pm

### Arddangosfa: Cenhedlaeth Goll

Llyfrgell ac Archifau Roderic Bowen, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion SA48 7ED

www.uwtsd.ac.uk/cy/

Arddangosfa o ddeunydd archif sy'n adrodd hanes Coleg Dewi Sant yn ystod y Rhyfel Mawr.

## AWST 2014

### 1 Awst 2014 - 11 Tach 2018

**Arddangosfa Deithiol - "Gwent yn y Rhyfel Mawr"**

Amryw leoliadau yng Ngwent

www.cymruncofio.org

Trefnwyd yr arddangosfa hon gan gangen Gwent o Gymdeithas Ffrynt y Gorllewin, ac mewn partneriaeth â MALD ac Archifau Gwent.

Bydd modd gweld yr arddangosfa deithiol hon mewn amrywiaeth o leoliadau ledled Gwent yn ystod y cyfnod coffáu a fydd yn para pedair blynedd.

Cysylltu: strong@btinternet.com neu 01291 425638.

### 5 Awst 2014 - 11 Tach 2018

**Wynebau'r Rhyfel Byd Cyntaf**

Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig, Castell Caernarfon, Caernarfon, Gwynedd LL55 2AY

www.rwfmuseum.org.uk/cym/index.html

Casglu ac arddangos manylion a ffotograffau pob un o'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig a fu farw yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

Ymgyrch ledled y wlad i chwilio am ffotograffau, gyda help cymdeithasau hanes, prosiectau cofebau rhyfel, archifau sirol a gwirfoddolwyr er mwyn dod o hyd i dros 10,500 o ffotograffau o'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig a fu farw yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Helpwch ni i aduno'r Gatrawd drwy ddod â'r bechgyn hyn adref.

Pob dyn yn cael ei goffáu yn yr Amgueddfa adeg canmlwyddiant ei farwolaeth.

Cysylltwch â ni drwy ffonio 01286 673362 neu e-bostio rwfmuseum1@btconnect.com os gallwch ein helpu neu os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch.

## MEDI 2017

### 23 Medi 2017 - 6 Ion 2018

**Y Ffordd i Ddamascus: Y Ffiwsilwyr Cymreig, y Dwyrain Canol a'r Rhyfel Byd Cyntaf**

Amgueddfa ac Archifau Bwrdeistref Sir Wrecsam, Regent Street, Wrecsam LL11 1RB

www.wrexham.gov.uk/heritage

Mae'r arddangosfa hon yn canolbwyntio ar hynt a helynt y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig yn yr Aifft a Phalestina yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf – ac yn seiliedig ar gasgliadau wrth gefn Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig sy'n cynnwys gwaith celf gwreiddiol gan Richard Lunt Roberts (6RWF) a ffotograffau a chofroddion gan aelodau o'r gatrawd a ddychwelodd adref. Uchafbwynt yr arddangosfa fydd paentiad Frank Brangwyn, 'Entry of the Welsh Troops into Jerusalem' a medalau dewrder a ddyfarnwyd i aelodau'r gatrawd, rhai ohonynt sy'n ymddangos yn gyhoeddus am y tro cyntaf erioed.

Oriau agor: Dydd Llun-Dydd Gwener 10 a.m. tan 5 p.m.
Dydd Sadwrn 11 a.m. tan 4 p.m.
Ar gau ar Ddydd Sul a Gŵyl y Banc.

Mynediad am ddim.

Gyda chymorth Cronfa Dreftadaeth y Loteri a Llywodraeth Cymru.

## TACHWEDD 2017

### 1 Tach 2017 - 2 Chwef 2018

**Ernest Rollings, Yr Heddwas a ddaeth â'r Rhyfel i Ben**

Firing Line - Amgueddfa Gwarchodlu Dragŵn y Frenhines a'r Gatrawd Frenhinol Gymreig, Castell Caerdydd, CF10

www.cardiffcastlemuseum.org.uk

Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, roedd pum gwasanaeth heddlu yn ardal Heddlu De Cymru heddiw - Morgannwg, Caerdydd, Abertawe, Merthyr Tudful a Chastell-nedd. Bu cannoedd o'r heddweision hynny yn gwasanaethu fel aelodau o'r fyddin yn ystod y rhyfel. Bu farw 93 i gyd, ac anafwyd llawer. Cafodd llawer eu cydnabod am eu dewrder a'u gwasanaeth a daeth enwogrwydd i ran un yn arbennig.

Roedd y swyddog Ernest James Rolling, heddwas o Forgannwg, yn rheoli cerbydau arfog a fu'n rhan o gyrch ar bentref Framerville, Ffrainc, ar 8 Awst 1918, ar ddiwrnod cyntaf Brwydr Amiens. Yn ystod y cyrch, sleifiodd i bencadlys yr Almaenwyr a chael gafael ar gynlluniau rhyfel cyfrinachol iawn. Dyfarnwyd y Groes Filwrol iddo am ei wroldeb. Yn y 1930au, dywedwyd fod ei weithredoedd o'r pwys mwyaf i'r Cynghreiriaid a chafodd ei ganmol gan y wasg fel y "dyn a ddaeth â'r rhyfel i ben."

Mae'r arddangosfa hon yn adrodd ei hanes.

### 11 Tach 2017 - 4 Maw 2018

**Cymylau Du Dros y Diwydiant Gwlân**

Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Heol Ystumllwynarth, Abertawe SA1 3RD

www.amgueddfa.cymru

Golwg ar ymdrech daer y diwydiant gwlân am gontractau

(Delwedd cefndir) 13eg Bataliwn, y Gatrawd Gymreig, yn cloddio ôl-amddiffynfeydd yn Houplines (30ain Adran), 13 Mawrth 1918 © IWM (Q 10720)

yn ystod y rhyfel i gadw'r melinau ar agor, a'r defnydd o hunaniaeth Gymraeg fel arf recriwtio. Roedd Corfflu'r Fyddin Gymreig am hybu'r elfen o hunaniaeth Gymreig trwy wisgo'r fyddin newydd mewn brethyn cartref – Brethyn Llwyd. Byrhoedlog fu'r defnydd ohono fodd bynnag, ac ni chafodd erioed ei ddefnyddio ar faes y gad.

## IONAWR 2018

### 23 Ion 2018 - 5 Gorff 2018

**Gwaith a Buddugoliaeth**

Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis Gwynedd LL55 4TY

www.amgueddfa.cymru

Mentrodd degau o filoedd o Gymry i frwydro ar dir mawr Ewrop, a 'nôl adref, roedd miloedd mwy yn gefn iddynt yn y diwydiannau hanfodol – yn eu plith y menywod a oedd yn rhan o'r gweithlu am y tro cyntaf. Mae'r arddangosfa hon yn edrych ar yr hyn a gynhyrchwyd ganddynt, sut y cyfrannodd at ymdrech y rhyfel, ac effaith y rhyfel ar ddiwydiant ein gwlad.

### 25 - 27 Ion 2018, 1:30pm - 9:45pm

**Forget Me Not**

Amgueddfa Pontypridd, Stryd y Bont, Pontypridd, Rhondda Cynon Taf CF37 4PE

www.avant.cymru/wwi-in-the-rhondda

Gyda chefnogaeth Cronfa Dreftadaeth y Loteri, dyma brofiad theatr bromenâd newydd am effeithiau'r Rhyfel Byd Cyntaf ar drigolion y Cymoedd. Llwyfannir y sioe yn Amgueddfa Pontypridd ar 25, 26 a 27 Ionawr.

Mae gennym gyfleoedd i wirfoddolwyr ein helpu i baratoi ar gyfer y sioe. Cofiwch gysylltu â ni i rannu straeon eich teulu am y Rhyfel Mawr ac i drafod syniadau ar gyfer y sioe.

Hefyd, rydym yn falch o gyhoeddi bod cwmni New York Pancake Department, Pontypridd, yn cynnig gostyngiad o 15% os dangoswch eich tocyn 'Forget Me Not' ar y diwrnod y byddwch yn dod i'r perfformiad.

### 25 - 27 Ion 2018, 7:30pm - 8:30pm

**Forget Me Not**

Amgueddfa Pontypridd, Stryd y Bont, Pontypridd, Rhondda Cynon Taf CF37 4PE

www.avant.cymru

Gyda chefnogaeth Cronfa Dreftadaeth y Loteri, dyma brofiad theatr bromenâd newydd sy'n bwrw golwg ar effeithiau'r Rhyfel Byd Cyntaf ar drigolion Cymoedd y De, ar faes y gad ac ar yr aelwyd. Ewch i'n gwefan i brynu'ch tocynnau.

### 27 Ion 2018

**Life on the Home Front**

Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NP

www.amgueddfa.cymru

Anghofiwch am helbulon bywyd, a dewch draw i'r Amgueddfa i ddysgu am fywyd ar yr aelwyd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

Mae gennym lond trol o weithgareddau ar eich cyfer.

Dewch i weld arddangosiadau coginio gyda'r hanesydd bwyd Seren Charrington-Hollins, dysgu am wisgoedd y cyfnod neu gymryd rhan mewn dosbarth dawnsio a dysgu'r 'Grizzly Bear'!

Bydd cerddoriaeth gan y 'Siren Sisters' a chyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau fel mesur eich dognau bwyd am yr wythnos.

Bydd criw Casgliad y Werin yno hefyd, felly os oes gennych chi unrhyw straeon i'w rhannu am y Rhyfel Mawr, gallwch eu lanlwytho ar y gronfa ddata ar gof a chadw i'r genedl. Hefyd, os oes gennych chi unrhyw eitemau neu bapurau, gallwn eu sganio er mwyn rhannu'r cynnwys a'r straeon gyda chenedlaethau'r dyfodol.

Bydd stondin i goffáu Diwrnod Cofio'r Holocost, a chyfle i'r ymwelwyr ddysgu mwy am faterion yn ymwneud â lladdfeydd o'r fath ddoe a heddiw. Hefyd, gallwch ysgrifennu at ddau a oroesodd holocost yr Ail Ryfel a holocost Bosnia er mwyn rhannu eich meddyliau a'ch teimladau gyda nhw.

### Ion - Awst 2018

**Y Gadair Ddu**

Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd CF5 6XB

www.amgueddfa.cymru

Bydd atgynhyrchiad 3D o *Y Gadair Ddu* a ddyfarnwyd i'r bardd o Drawsfynydd, Hedd Wyn yn Eisteddfod Genedlaethol Penbedw 1917 ar ôl iddo farw ar faes y gad, i'w gweld yn Sain Ffagan rhwng Ionawr ac Awst 2018.

Bu farw Hedd Wyn ym mrwydr Passchendaele yn ystod y Rhyfel Mawr ar 31 Gorffennaf 1917, ac ers hynny, mae'r gadair farddol wedi hawlio'i lle ar fferm y teulu yn yr Ysgwrn, Trawsfynydd.

Yn 2013, fe wnaeth Llywodraeth Cymru mewn partneriaeth ag Amgueddfa Cymru a Pharc Cenedlaethol Eryri ac Ysgol Beirianneg Prifysgol Caerdydd gomisiynu replica 3D argraffedig o Y Gadair Ddu er mwyn teithio Cymru a gwlad Belg fel rhan o ddigwyddiadau Cymru'n Cofio.

# CHWEFROR 2018

## 1 Chwef 2018 - 1 Chwef 2019

### Prosiect sero - Awyrlongau dros Gymru

Lleoliadau amrywiol

www.projectzerohistorymatters.blogspot.co.uk

Fe wnaeth y Rhyfel Mawr effeithio ar bob aelod o gymdeithas mewn llawer o ffyrdd ac ar bob lefel. Gan amlaf roedd hyn wedi'i lywio gan y profiad o ymladd ar Ffrynt y Gorllewin a'r brwydro di-ben-draw yn y ffosydd oedd yn nodwedd mor gyffredin. Gofynnwch i unrhyw un i ddisgrifio'r rhyfel, a mwy na thebyg mai'r mwd a'r gwaed a'r awyrennau adain ddwbl a ddaw i'r cof. Mae'r prosiect hwn yn gyfle i ddarganfod elfen o ryfela sydd bellach yn angof, yn yr un modd â chyrch olaf y gwŷr meirch, un sy'n dal i gydio yn y dychymyg heddiw - yr awyrlong.

Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, rhwng 1917 a 1918, roedd awyrlongau Gwasanaeth Awyr y Llynges Frenhinol yn amddiffyn arfordiroedd Prydain rhag peryglon llongau tanfor yr Almaen. Yma yng Nghymru, roedd dwy orsaf awyrlongau yn gartref i awyrlongau Submarine Scout Zerodirigible yn ystod y rhyfel angof hwn ar y ffrynt cartref.

Nod y prosiect hwn, sydd wedi'i ariannu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Cymru yw ymchwilio i rôl a datblygiad awyrlongau yng Nghymru wrth gofio'r canmlwyddiant a rhannu'r straeon a'r wybodaeth a gofnodir ac a ddehonglir gennym fel arddangosfa deithiol. Bydd ein hamgueddfa dros dro yn cynnwys ail-gread o gerbyd rheoli 'Zero class' a 'chriw hanes byw' er mwyn ymgysylltu ag ymwelwyr.

Rydym yn chwilio am leoliadau a phartneriaid newydd ar gyfer ein harddangosfeydd o Fôn i Fynwy gydol 2018, ac yn awyddus i weithio gyda grwpiau a phrosiectau eraill. Cysylltwch â chydlynydd y prosiect trwy e-bostio projectzerohistorymatters@gmail.com

---

## 4 Chwef 2018

### Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1918 - 100 mlynedd o rym y werin!

Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd CF5 6XB

www.amgueddfa.cymru

Mae'n ganrif ers i fenywod dros 30 oed gael yr hawl i bleidleisio. Dewch i gwrdd â'n curaduron a gweld gwrthrychau diddorol o gasgliad y swffragetiaid wrth inni ddathlu canmlwyddiant Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1918.

---

## 20 Chwef 2018, 7:30pm

### The Wood

Theatr y Torch, St Peters Road, Aberdaugleddau, Sir Benfro SA73 2BU

www.torchtheatre.co.uk

"Stori am gyfeillgarwch, cariad ac aberth yn erbyn cefndir o fyd sy'n wenfflam…"

Gorffennaf 1916 yw hi, mae Brwydr y Somme ar ei hanterth ac mae Coedwig Mametz yn adleisio i seiniau rhyfel wrth i'r 38ain Adran Gymreig wynebu ffyrnigrwydd byddin yr Almaen…

Mae hon yn ddrama newydd sbon gan Owen Thomas, awdur y ddrama lwyddiannus 'Grav', sydd wedi'i hysgrifennu i goffáu canmlwyddiant diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae wedi'i hysbrydoli gan stori wir.

Mae Dan a Billy, dau filwr ifanc, yn dod yn ffrindiau wrth i danbeidrwydd y frwydr anllad gynyddu. Pan gaiff Billy ei ladd yng Nghoedwig Mametz, mae'n gadael ffrind llawn galar ac, yn ôl adref, gwraig feichiog sydd wedi torri'i chalon.

Wedi'i newid gan ei brofiadau ar Ffrynt y Gorllewin, mae Dan yn dychwelyd adref i gamu i mewn i esgidiau ei ffrind, gan briodi gweddw Billy maes o law a magu eu mab bychan fel ei blentyn ei hun.

Hanner can mlynedd yn ddiweddarach, mae Dan yn dychwelyd i lannerch yng nghanol y goedwig i ffarwelio ag ysbryd y gorffennol.

Bydd y cynhyrchiad yn cael ei gyfarwyddo gan ein Cyfarwyddwr Artistig, Peter Doran, a enillodd wobr y Cyfarwyddwr Gorau, Gwobrau Theatr Cymru 2017.

Bydd y ddrama hefyd yn cael ei pherfformio yn y lleoliadau canlynol:

Caerdydd, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru – dydd Gwener 2 Mawrth 2018, 7:45pm

Llanelli, Y Ffwrnes, Theatrau Sir Gar – dydd Mawrth 6 Mawrth 2018, 7:30pm

Ystradgynlais, Y Neuadd Les – dydd Iau 8 Mawrth 2018, 7:30pm

Y Drenewydd Powys, Y Hafren – dydd Sadwrn 10 Mawrth 2018, 7:30pm

Aberteifi, Theatr Mwldan – dydd Mawrth 13 Mawrth 2018, 7:30pm

Casnewydd Gwent, Glan yr Afon – dydd Mercher 14 Mawrth 2018, 7:30pm

Canolfan Celfyddydau Pontardawe – dydd Iau 15 Mawrth 2018, 7:30pm

Trecelyn, Newbridge Memo – dydd Gwener 16 Mawrth 2018, 7:30pm

Y Fenni, Borough Theatre – dydd Mawrth 20 Mawrth 2018, 7:30pm

Pwllheli, Neuadd Dwyfor – dydd Iau 22 Mawrth 2018, 7:30pm

(delwedd cefndir) Cwmni o ffiwsilwyr Cymreig, 24ain Bataliwn, 74ain Fintai, ar y llinell flaen uwchben Sinjil, ar Ffordd Nablus, fis Mawrth 1918. © IWM (Q 12648)

Aberystwyth, Canolfan y Celfyddydau – dydd Gwener 23 Mawrth 2018, 7:30pm

Yr Wyddgrug, Theatr Clwyd – dydd Sadwrn 24 Mawrth 2018, 7:45pm

---

### Chwef - Meh 2018

### Tros Ryddid ac Ymerodraeth

Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru, Blaenafon, Pont-y-pŵl NP4 9XP

www.amgueddfa.cymru

Mae'r arddangosfa hon yn edrych ar ymateb y cymunedau llechi i'r ymgyrch recriwtio a ragflaenodd y system gonsgripsiwn, ac yn trin a thrafod eu hymateb i'r alwad i ryfel.

## MEHEFIN 2018

### 7 Meh 2018

### Where are all the women? - Women in Classical Music Symposium

Glan yr Afon, Kingsway, Casnewydd, Gwent NP20 1HG

www.wno.org.uk/event/rhondda-rips-it

Faint o arweinwyr, cyfansoddwyr neu gyfarwyddwyr benywaidd ym myd cerddoriaeth glasurol allwch chi eu dwyn i gof mewn 30 eiliad? Tra thebyg mai rhestr go fer fydd hi. Pam hynny tybed, a beth allwn ni ei wneud i sbarduno newid? Mae *Where are all the women?* yn cael ei gynnal ar 7 Mehefin 2018 yng Nghasnewydd, i gyd-fynd â première Rhondda Rips It Up!

Bydd y diwrnod yn cynnwys siaradwyr o bob rhan o'r sector a fydd yn rhannu eu profiadau, yr heriau a sut maen nhw'n gwneud gwahaniaeth. Byddwn yn lansio cynllun arweinydd ifanc preswyl hefyd, dan arweiniad Opera Cenedlaethol Cymru, gyda galwad agored am geisiadau. Dyfernir y lleoliad ym mis Medi 2018.

Bydd tocynnau ar werth ddechrau 2018.

### 7 Meh 2018, 7:30pm - 8 Tach 2018

### Rhondda rips it up

Glan yr Afon, Kingsway, Casnewydd, Gwent NP20 1HG

www.wno.org.uk/event/rhondda-rips-it

Gweithredoedd Nid Geiriau: I goffáu canmlwyddiant y mesur pleidleisio rhannol, mae Opera Cenedlaethol Cymru'n dathlu bywyd Margaret Haig Thomas, y Fonesig Rhondda, sef swffragét Casnewydd. Ei gweithredoedd hi oedd dechrau'r daith i sicrhau hawliau menywod yn y byd personol, proffesiynol a gwleidyddol trwy gerddoriaeth, hiwmor a chân. Mae'r gwaith newydd hwn yn arddull glasurol y theatrau cerdd yn rhoi llwyfan i Lesley Garret a Madeleine Shaw yn y prif rannau.

Cefnogir Rhondda rips it up! gan Ymddiriedolaeth Nicholas John, er cof am Joan Moody, Ymddiriedolaeth Elusennol Colwinston ac Undeb Rhondda Opera Cenedlaethol Cymru.

Bydd tocynnau ar werth ym mis Mawrth yn y lleoliadau.

Première y byd – Casnewydd, Glan yr Afon – Dydd Iau 7 Mehefin 2018, 7:30pm

Caerfyrddin, Theatr y Lyric – Dydd Mawrth 12 Mehefin 2018, 7:00pm

Caerdydd, New Theatre – Dydd Iau, 14 Mehefin 2018, 7:00pm

Aberhonddu, Theatr Brycheiniog – Dydd Sadwrn 16 Mehefin 2018, 7:00pm

Treorci, Y Parc a'r Dâr – Dydd Mercher 27 Mehefin 2018, 7:30pm

Y Drenewydd, Theatr Hafren – Dydd Gwener 29 Mehefin 2018, 7:00pm

Abertawe, Taliesin – Dydd Mercher 3 Hydref 2018, 6:30pm

Bangor, Pontio – Dydd Mawrth 16 Hydref 2018, 6:30pm

Yr Wyddgrug, Theatr Clwyd – Dydd Iau 8 Tachwedd, 7:15pm

Ac ar daith ledled Lloegr yn ystod haf a hydref 2018.

---

### Meh 2018

### Llen o Babïau

Amgueddfa Wlân Cymru, Dre-fach Felindre, Ger Castellnewydd Emlyn, Sir Gaerfyrddin SA44 5UP

www.amgueddfa.cymru

Mae ein gwirfoddolwyr yn cymryd rhan ym Mhrosiect Tecstilau'r Canmlwyddiant, sy'n cael ei drefnu gan Wonderwool Cymru, i gynhyrchu Gosodiad Tecstilau Cymunedol o 887,858 o babïau i goffáu pob person o'r DU a fu farw'n gwasanaethu ei wlad.

## GORFFENNAF 2018

### 21 Gorff 2018 - 7 Ion 2019

### Poppies for Remembrance

Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NP

www.amgueddfa.cymru

Mae'r arddangosfa hon yn ymchwilio i'r cyswllt rhwng y pabi a'r defnydd diwylliannol ohonynt ar gyfer coffáu. Sut mae pobl yn cofio ac yn coffáu? Bydd yn archwilio gwyddoniaeth bioamrywiaeth hefyd – yr astudiaeth o rywogaethau o blanhigion ac anifeiliaid yn yr amgylchedd naturiol.

## 23 Gorff 2018 - 21 Rhag 2018

### Cofeb/Remembering

Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis, Caernarfon LL55 4TY

www.amgueddfa.cymru

Mae'r arddangosfa hon yn edrych ar sut rydym yn cofio a sut rydym yn coffáu rhyfel. O weithredoedd personol megis rhoi blodau ar fedd neu ffotograff ar wal i gofebion cyhoeddus megis senotaff mewn pentref a gwasanaeth mewn eglwys, mae'r weithred o gofio yn rhywbeth sy'n ein cyffwrdd ni i gyd. Mae'r arddangosfa hon yn cyflwyno apêl ledled cymunedau'r chwareli llechi am wybodaeth am y ffordd rydym yn cofio'r Rhyfel a'i ddylanwad ar fywydau pobl.

---

## 24 - 27 Gorff 2018

### Poppies Craft Workshops

Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NP

www.amgueddfa.cymru

Ymunwch â ni yn y gweithdai crefft pabïau hyn i greu eich campweithiau eich hun â llaw i fynd adref gyda chi.

# MEDI 2018

## 15 Medi 2018, 6:00pm - 20 Hyd 2018

### War & Peace gan Prokofiev

Canolfan Mileniwm Cymru, Caerdydd, De Morgannwg CF10 5AL

www.wno.org.uk/

Mae'r stori hon, sy'n seiliedig ar nofel ddylanwadol Leo Tolstoy o'r un enw, yn dilyn hynt a helynt ymosodiad Ffrainc ar Rwsia ym 1812. Fe'i cyfansoddwyd gan Prokofiev yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Mae'n gwbl addas y bydd opera gyda rhyfel a heddwch yn themâu mor gryf ynddi yn cael ei llwyfannu yn ystod canmlwyddiant cadoediad y Rhyfel Byd Cyntaf. Cyfarwyddir y cynhyrchiad newydd hwn gan Gyfarwyddwr Artistig Opera Cenedlaethol Cymru, David Pountney, a'r arweinydd yw'r Cyfarwyddwr Cerdd, Tomas Hanus.

Tocynnau ar werth ym mis Mawrth.

Perfformiadau:

Canolfan Mileniwm Cymru, Caerdydd: 15/09/18, 22/09/18, 29/09/18 Venue Cymru, Llandudno: 20/10/18

Ac ar daith yn Lloegr.

---

## 25-29 Medi 2018

### Nawr Yr Arwr

Neuadd Brangwyn, Abertawe

www.nawryrarwr.cymru

Mae Nawr Yr Arwr yn brosiect cymysg ar safle penodol a ddyfeisiwyd yn sgil gwahoddiad personol gan 14-18 NOW i'r artist rhyngddisgyblaethol Marc Rees, sydd yn enedigol o Abertawe. Fe'i gwahoddwyd i greu coffâd diwylliannol Cymreig ar destun y Rhyfel Byd Cyntaf ar raddfa fawr a gynhelir yn ac o gwmpas Neuadd Brangwyn, Abertawe, yn ystod y cynhaeaf, Medi 2018.

---

## Medi 2018 - Rhag 2018

### Gobaith Caneri? Menywod y Miwnishons

Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Ffordd Ystumllwynarth, Abertawe SA1 3RD

www.amgueddfa.cymru

Cafodd llawer o fenywod eu cyflogi mewn ffatrïoedd arfau yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, a chawsant y llysenw *Munitionettes* neu *Ferched Caneri*. Roedd y gwaith yn y ffatrïoedd hyn yn drwm a pheryglus, ond er gwaethaf hyn fe roddodd ryddid newydd i fenywod yn y ffatrïoedd a'r tu allan iddynt.

# HYDREF 2018

## 27 Hyd 2018 - 4 Tach 2018

### Gweithgareddau ar thema'r Rhyfel Byd Cyntaf

Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd CF5 6XB

www.amgueddfa.cymru

Ymwelwch â'r wefan am fwy o wybodaeth.

---

## Hyd 2018 - Ion 2019

### Gobaith Caneri? Menywod y Miwnishons

Amgueddfa Wlân Cymru, Dre-fach Felindre ger Castellnewydd Emlyn, Sir Gaerfyrddin SA44 5UP

www.amgueddfa.cymru

Cafodd llawer o fenywod eu cyflogi mewn ffatrïoedd arfau yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, a chawsant y llysenw *Munitionettes* neu *Ferched Caneri*. Roedd y gwaith yn y ffatrïoedd hyn yn drwm a pheryglus, ond er gwaethaf hyn fe roddodd ryddid newydd i fenywod yn y ffatrïoedd a'r tu allan iddynt.

---

## Hyd 2018 - Maw 2019

### Tros Ryddid ac Ymerodraeth

Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Ffordd Ystumllwynarth, Abertawe SA1 3RD

www.amgueddfa.cymru

Mae'r arddangosfa'n edrych ar ymateb y cymunedau llechi i'r ymgyrch recriwtio.

(delwedd cefndir) Lluoedd y Bataliwn 1af, y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig yn pasio pwynt saliwtio Brenin yr Eidal, yn Castelgomberto, 27 Tachwedd 1918 © IWM (Q 26788)

# TACHWEDD 2018

## 10 Tach 2018, 07:00pm - 10:00pm

### WW1 - A Village at War

The Follies Theatre, Folly Farm, Arberth, Sir Benfro SA67 8AH

I goffáu diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf, bydd opera a gomisiynwyd ac a gynhyrchwyd gyntaf yn 2014, yn cael ei pherfformio yn y Follies Theatre. Bydd yn cynnwys unawdwyr, corws, cerddorfa a ffilm arloesol a ddefnyddir fel cefnlen. Bydd y ffilm yn cynnwys deunydd wedi'i saethu mewn gwahanol leoliadau sydd wedi'u cynnwys yn yr opera, ffotograffau llonydd a darnau ffilm gwreiddiol o'r Rhyfel Mawr. Bydd yn brofiad emosiynol.

## 10 Tach 2018

### Sul y Cofio

Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd CF5 6XB

www.amgueddfa.cymru

Ymunwch â chymuned Trecelyn wrth iddynt ymgasglu wrth y gofeb ryfel ar gyfer ein gwasanaeth blynyddol i gofio'r rhai a gollwyd.

## 11 Tach 2018

### Gwasanaeth Cofio Cenedlaethol

Y Gofeb Ryfel Cenedlaethol, Gerddi Alexandra, Caerdydd CF10 3NN

www.cymruncofio.org

I ddechrau am 10:45yb.

## 11 Tach 2018

### Sul y Cofio

Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NP

www.amgueddfa.cymru

Mae Sul y Cofio yn yr Amgueddfa yn ffordd unigryw i goffáu'r diwrnod. Fe fydd yna gymeriadau yng ngwisg y cyfnod wrth law i sgwrsio â chi am fywyd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, yn ogystal â chrefftau gwneud pabïau a straeon i'r teulu. Bydd myfyrwyr o Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yn darparu cerddoriaeth yn ystod y dydd, o gyd-ganu hen-ffasiwn i'r Caniad Olaf atgofus a gaiff ei seinio am 11am yn y Brif Neuadd cyn y tawelwch o ddwy funud.

## Tach 2018 - Ion 2019

### Women at War

Amgueddfa Wlân Cymru, Dre-fach Felindre, ger Castellnewydd Emlyn, Gaerfyrddin SA44 5UP

www.amgueddfa.cymru

Arddangosfa o'r ymatebion i'n cystadleuaeth flynyddol i golegau. Y thema a roddwyd eleni oedd Menywod yn y Rhyfel.



(delwedd cefndir) Golygfa o'r awyr o ynnau'r 53ain Fintai (Gymreig) ar barêd i'w harolygu gan y Cadfridog Allenby ar y traeth yn Alecsandria (mis Rhagfyr 1918). (c) IWM (HU 110451)